


DOGFEN
8.6

Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol

National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

*Regulation (5)(2)(a) including (l) and (m) of the Infrastructure Planning
(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009*



Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Cyfrol 8

Dogfen 8.6 Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol

National Grid
National Grid House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick
CV34 6DA

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Rheolaeth y Ddogfen			
Priodweddau'r Ddogfen			
Sefydliad	AECOM		
Awdur	Jane Knowles		
Cymeradwywyd gan	Nigel Pilkington		
Teitl	Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol		
Cyfeirnod y Ddogfen	8.6		
Hanes y Fersiynau			
Dyddiad	Fersiwn	Statws	Disgrifiad/Newidiadau
Medi 2018	A	TERFYNOL	Terfynol i'w gyflwyno

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
1.1	Cyflwyniad	1
1.2	National Grid	1
1.3	Yr Angen am y Prosiect	1
1.4	Trosolwg o'r Prosiect	2
1.5	Beth ydy Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol?	3
1.6	Y Datganiad Amgylcheddol	4
1.7	Y Crynodeb Annhechnegol	4
2	Y Datblygiad Arfaethedig	6
2.1	Trosolwg o'r Datblygiad Arfaethedig	6
2.2	Terfynau Gwyro a Pharmedrau	6
2.3	Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig	8
2.4	Adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig	13
2.5	Llwybrau Traffig Adeiladu	16
2.6	Asedau Trydydd Parti	16
2.7	Rhaglen Adeiladu	16
2.8	Cynnal a Chadw a Gweithredu	17
2.9	Datgomisiynu	19
3	Hanes y Prosiect a Dewisiadau Amgen	21
4	Ynghylch yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	24
4.1	Cwmpasu	24
4.2	Proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	24
4.3	Lliniaru	26
5	Canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	28
5.1	Trosolwg	28
5.2	Asesu'r Dirwedd	28
5.3	Asesiad Gweledol	32
5.4	Ecoleg a Chadwraeth Natur	37
5.5	Yr Amgylchedd Hanesyddol	42
5.6	Daeareg, Hydrodaeareg a Chyflwr y Tir	45
5.7	Ansawdd Dŵr, Adnoddau a'r Perygl o Lifogydd	47
5.8	Traffig a Thrafnidiaeth	50
5.9	Ansawdd Aer ac Allyriadau	53
5.10	Sŵn a Dirgryndod Adeiladu	54
5.11	Sŵn Gweithredu	55
5.12	Elfennau economaidd-gymdeithasol	56

5.13	Amaethyddiaeth	60
5.14	Effeithiau Cronnus o Fewn y Prosiect	62
5.15	Effeithiau Cronnus Rhwng Prosiectau	63
5.16	Datganiad o Effeithiau Cyfun yn y Gwaith Ehangach	64
6	Crynodeb a'r Camau Nesaf	66
6.1	Crynodeb	66
6.2	Y Camau Nesaf	68
7	Ffigurau	70

FFIGURAU	
Ffigur 1	Y Datblygiad Arfaethedig
Ffigur 2	Delwedd o Brif Dŷ Twannel Afon Braint
Ffigur 3	Delwedd o Brif Dŷ Twannel Tŷ Fodol
Ffigur 4	Delwedd o Bentir
Ffigur 5	Llwybrau Arfaethedig y Gwaith Adeiladu
Ffigur 6	Lleoliadau Dangosol y Gwaith Ehangach

1 Cyflwyniad

1.1 CYFLWYNIAD

- 1.1.1 Y ddogfen hon ydy'r crynodeb, mewn iaith annhechnegol, o'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, a fyddai'n cael ei ddatblygu gan National Grid Electricity Transmission plc (National Grid).

1.2 NATIONAL GRID

- 1.2.1 Mae'r National Grid yn berchen ar y system trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr, ac yn gweithredu'r rhwydwaith trydan foltedd uchel ym Mhrydain Fawr. Mae'r system yn gweithredu ar 400,000 a 275,000 folt, gan gysylltu generaduron trydan ag is-orsafoedd. Yn yr is-orsafoedd, caiff y foltiau uwch eu trosglwyddo yn foltiau is, gan alluogi Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu i ddosbarthu'r pŵer i gartrefi a busnesau. Mae ganddo ddyletswydd statudol i gynnal system trawsyrru trydan 'effeithlon, gydlynol ac economaidd'.
- 1.2.2 Rhaid i'r National Grid hefyd, o dan delerau Deddf Trydan 1989, ystyried diogelu'r amgylchedd a gwneud yr hyn mae'n gallu ei wneud, yn rhesymol, i leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd wrth lunio cynigion newydd i drawsyrru trydan.

1.3 YR ANGEN AM Y PROSIECT

- 1.3.1 O dan delerau ei drwydded, mae gan y National Grid ddyletswydd statudol i unrhyw un sy'n gwneud cais am gysylltiad â'r system drawsyrru. Mae Pŵer Niwclear Horizon wedi gwneud cais i'r National Grid am gael cysylltu ei orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa ar Ynys Môn (Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd) â'r rhwydwaith trawsyrru cenedlaethol foltedd uchel. Nid oes gan y llinell uwchben bresennol rhwng is-orsaf Wylfa a'r prif dir ddigon o gapasiti i gael ei defnyddio'n ddiogel i gario'r holl drydan a fyddai'n cael ei gynhyrchu. Felly, mae angen cysylltiad trydan newydd â'r rhwydwaith trawsyrru cenedlaethol foltedd uchel ar y tir mawr er mwyn gallu allforio pŵer. Mae'r National Grid dan gontract i gysylltu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd â'r rhwydwaith trawsyrru cenedlaethol yng ngogledd Cymru, felly mae angen iddo gael cydsyniad ar gyfer ail gysylltiad newydd a'i adeiladu. Ceir rhagor o fanylion yn yr Achos Angen (**Dogfen 7.1**).



Ffotograff 1: Golwg o'r Awyr o Orsaf Bŵer Niwclear Bresennol Wylfa

1.4 TROSOLWG O'R PROSIECT

1.4.1 Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru (y 'Datblygiad Arfaethedig') ydy cynnig i ddatblygu cysylltiad 400,000 folt (400 cilofolt (kV)) newydd rhwng yr is-orsaf 400kV bresennol yn Wylfa ar Ynys Môn ac is-orsaf Pentir yng Ngwynedd. Byddai hyn yn golygu bod modd allforio'r pŵer o Orsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd. Mae golwg o'r Awyr o Orsaf Bŵer Niwclear Bresennol Wylfa, a rhan o'r llinell uwchben bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir, i'w weld yn Ffotograff 1.

1.4.2 Prif rannau'r Datblygiad Arfaethedig ydy:

- addasiadau i'r is-orsaf bresennol yn Wylfa;
- adrannau o linell uwchben 400kV newydd rhwng is-orsaf Wylfa, Prif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn, gan gynnwys addasu rhannau o'r llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir;
- Prif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn;
- twannel rhwng Prif Dai Twannel Afon Braint a Thŷ Fodol;

- Prif Dŷ Twannel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yng Ngwynedd;
- adran newydd o linell uwchben rhwng Prif Dŷ Twannel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ac is-orsaf Pentir;
- estyniad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir; a
- chompowndiau dros dro ar gyfer gwaith adeiladu, traciau mynediad, gweithfeydd i'r adeiladwyr, lledaenu'r briffordd gyhoeddus mewn mannau lleol, a gwaith trydydd parti sy'n angenrheidiol er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrir uchod.

1.4.3 Gan fod rhan o'r Datblygiad Arfaethedig yn llinell uwchben â foltedd uwch na 132kV, sy'n fwy na 2 gilomedr (km); mae'n cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, rhaid gwneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) a awdurdodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

1.4.4 Fel rhan o'r cais am DCO, ac yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009 (fel y'i diwygiwyd), mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi cael ei gynnal. Adroddir arno yn y Datganiad Amgylcheddol. Er bod Rheoliad Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017 wedi cymryd lle Rheoliadau 2009, maent yn dal yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig o ganlyniad i'r ffaith y ceisiwyd barn gwmpasu cyn i Reoliadau 2017 ddod i rym.

1.5 BETH YDY ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL?

1.5.1 Yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ydy'r broses o nodi, gwerthuso a lliniaru, lle bo modd, effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol prosiect. Mae'n hybu nodi a gwerthuso effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd yn gynnar ac yn ei gwneud yn bosibl nodi mesurau lliniaru (h.y. mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwysu effeithiau negyddol neu i gynyddu effeithiau cadarnhaol) priodol a'u hymgorffori yn nyluniad Prosiect, neu ei gwneud yn bosibl ymrwymo i fesurau lliniaru eraill, fel dulliau ac arferion adeiladu sy'n sensitif yn amgylcheddol.

1.5.2 Cafodd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol y Datblygiad Arfaethedig ei gynnal ar yr un adeg â'r broses ddylunio er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i leihau'r effeithiau sylweddol tebygol fel y cawsant eu nodi. Mae'r dull hwn wedi sicrhau bod mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn nyluniad y Datblygiad Arfaethedig a'u bod yn rhan bwysig ohono.

1.5.3 Mae canlyniadau'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol hefyd yn gwneud yn siŵr bod partïon sy'n gwneud penderfyniadau, fel yr Ysgrifennydd Gwladol ac ymgynghoreion statudol, yn ogystal â phartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys cymunedau lleol, yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol tebygol y Datblygiad Arfaethedig ac a allai'r rhain fod yn sylweddol ai peidio, er mwyn eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ynghylch y cais am DCO.

1.6 Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

1.6.1 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys nifer o ddogfennau sydd wedi cael eu paratoi gan y National Grid ac sy'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r cais am DCO.

1.6.2 Mae'r Datganiad yn darparu trosolwg o'r Datblygiad Arfaethedig, y prif ddewisiadau amgen a gafodd eu hystyried wrth ddatblygu'r Prosiect, gwybodaeth am yr amgylchedd presennol, ac aseiad o effeithiau sylweddol tebygol y Datblygiad Arfaethedig. Lle bo'n briodol, mae mesurau lliniaru wedi cael eu nodi i osgoi, lleihau neu wella effeithiau amgylcheddol niweidiol sylweddol.

1.6.3 Wrth lunio'r Datganiad, mae'r National Grid wedi ymgynghori â'r cyhoedd, rhanddeiliaid ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.

1.6.4 Y Datganiad Amgylcheddol ydy **Cyfrol 5** y cais am DCO.

1.7 Y CRYNODEB ANNHECHNEGOL

1.7.1 Er bod y Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei ysgrifennu mewn ffordd mor glir a dealladwy â phosibl, mae'n dal yn ddogfen fawr sy'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth dechnegol ac, o raid, yn cynnwys iaith dechnegol yn aml. Mae'r Crynodeb Annhechnegol yn darparu crynodeb o gynnwys y Datganiad Amgylcheddol mewn ffordd sydd wedi'i bwriadu i fod yn hawdd ei deall i bob darllenydd drwy osgoi, lle bo modd, defnyddio iaith or-dechnegol.

1.7.2 Dyma strwythur gweddill y Crynodeb Annhechnegol:

- **Adran 2: Y Datblygiad Arfaethedig.** Mae'r adran hon yn darparu disgrifiad o bob agwedd ar Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, gan gynnwys sut byddai'n cael ei adeiladu.
- **Adran 3: Hanes y Prosiect a Dewisiadau Amgen.** Mae'r adran hon yn disgrifio datblygiad dyluniad y Datblygiad Arfaethedig.

- **Adran 4: Ynghylch yr Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol.** Mae'r adran hon yn disgrifio proses yr Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys sut cafodd yr effeithiau eu nodi, eu hasesu a'u lliniaru.
- **Adran 5: Canlyniadau'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol.** Mae'r adran hon yn disgrifio canlyniadau'r aseidiadau ar gyfer pob pwnc amgylcheddol.
- **Adran 6: Y Camau Nesaf** Mae'r adran hon yn egluro camau nesaf y broses ymgeisio.

2 Y Datblygiad Arfaethedig

2.1 TROSOLWNG O'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

2.1.1 Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu cysylltiad 400kV newydd rhwng yr is-orsafoedd presennol yn Wylfa a Phentir ac mae'n cynnwys y canlynol:

- estyniad i'r is-orsaf bresennol yn Wylfa;
- adrannau o linell uwchben 400kV newydd rhwng is-orsaf Wylfa, Prif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn, gan gynnwys addasu rhannau o'r llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir;
- Prif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn;
- twannel rhwng Prif Dai Twannel Afon Braint a Thŷ Fodol;
- Prif Dŷ Twannel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yng Ngwynedd;
- adran newydd o linell uwchben rhwng Prif Dŷ Twannel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ac is-orsaf Pentir;
- estyniad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir; a
- chompowndiau dros dro ar gyfer gwaith adeiladu, traciau mynediad, gweithfeydd i'r adeiladwyr, lledaenu'r briffordd gyhoeddus mewn mannau lleol, a gwaith trydydd parti sy'n angenrheidiol er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrir uchod.

2.1.2 Mae Terfynau'r Gorchymyn yn diffinio'r ardal lawn sydd ei hangen i leoli ac adeiladu pob rhan o'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Terfynau i'w gweld yn Ffigur 1.

2.2 TERFYNAU GWYRO A PHARAMEDRAU

2.2.1 Yn hytrach na gwneud cais am lwybr sefydlog ar gyfer y llinell uwchben a'r twannel, neu ar gyfer y dyluniad manwl o adeiladau (agweddau aflinol) (e.e. prif dŷ'r twannel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio), mae'r cais wedi cael ei wneud am ardal ychydig yn ehangach, a fyddai'n caniatáu

rhywfaint o hyblygrwydd o ran llwybr y cysylltiad a/neu faint yr agweddau aflinol.

2.2.2 Rhaid cael yr hyblygrwydd hwn er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau bach yn ystod y gwaith dylunio manwl, neu hyd yn oed ar ôl dechrau gweithio ar y safle er mwyn darparu ar gyfer cyfyngiadau annisgwyl, er enghraifft canfod cyflwr heriol o ran y ddaear neu nodweddion archaeolegol wedi'u claddu. Defnyddir y term 'Terfyn Gwyro' i ddisgrifio'r ardal ehangach hon y gellid adeiladu a llwybro'r llinell uwchben neu'r twnnel ynddi. Defnyddir y term 'paramedr' i ddisgrifio'r ardal ehangach hon lle caiff agweddau aflinol y cysylltiad (adeiladau) eu lleoli.

2.2.3 Mae'r Terfynau Gwyro a'r Paramedrau yn darparu pellter mwyaf posibl neu fesuriad o newid y mae'n rhaid adeiladu'r holl waith parhaol o'i fewn. Dyma Derfynau Gwyro bras y Datblygiad Arfaethedig:

- Llinell Uwchben – Terfynau Gwyro o tua 100 metr (m) (50m y naill ochr a'r llall i'r llinell ganol) heb gyfyngiad ar symudiad peilon ar hyd y llinell ganol. Terfyn Gwyro at i fyny ar gyfer uchder peilon ydy 6m; a'r
- Twnnel – Byddai'r twnnel yn cael ei adeiladu yn unol â'r Terfyn Gwyro a nodir yn Ffigur 1, sef tua 750m ar ei bwynt lletaf. Byddai brig y twnnel yn cadw o leiaf 10m o orchudd creigwely rhyngddo a lefel y ddaear neu Afon Menai. Nid oes Terfyn Gwyro fertigol isaf wedi cael ei nodi.


2.2.4 Mae Terfynau'r Gorchymyn y gwnaed cais amdanynt yn cynnwys y Terfynau Gwyro hyn, ond hefyd ardaloedd o dir y mae angen amdanynt dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu, er enghraifft i adeiladu traciau mynediad dros dro. Mae hyblygrwydd o ran lleoliad y gwaith dros dro yn Nherfynau'r Gorchymyn hefyd. Mae'r Terfynau i'w gweld yn Ffigur 1.

2.2.5 Mae canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yr adroddir arnynt yn y Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried y Terfynau Gwyro a'r Paramedrau wrth nodi a fyddai'r effeithiau yn sylweddol ai peidio. Mae ystyriaeth fanwl o'r Terfynau Gwyro a'r Paramedrau wedi cael ei chynnwys er mwyn gwneud yn siŵr bod yr asesiad yn gadarn a'i fod wedi ystyried achos gwaethaf realistig ar gyfer y datblygiad adeiledig terfynol.

2.3 DISGRIFIAD O'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Llinell Uwchben

- 2.3.1 Llwybr y llinell uwchben arfaethedig ydy rhwng is-orsaf Wylfa ar arfordir gogleddol Ynys Môn a Phrif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio i'r de orllewin o Lanfairpwll. Byddai'r cysylltiad yn cael ei roi mewn twannel i Brif Dŷ Twannel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio, i'r de o'r A4087 yng ngogledd orllewin Gwynedd. Wedyn byddai angen adran ychwanegol o linell uwchben rhwng y compownd lle caiff pennau ceblau eu selio ac is-orsaf Pentir. Lle bo'n bosibl, mae'r llinell uwchben newydd wedi cael ei llwybro'n gyfochrog â'r llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir.
- 2.3.2 I osgoi'r angen i'r llwybr llinell uwchben presennol 'wro o dan' neu groesi'r llinell uwchben bresennol sy'n rhedeg ar draws Ynys Môn, byddai'r llinell uwchben bresennol yn cael ei had-drefnu mewn sawl lle. Byddai'r ad-drefniadau hyn yn cynnwys tynnu adrannau o'r llinell bresennol ac ailgysylltu'r adrannau sy'n weddill â'r llinell newydd.
- 2.3.3 Mae hyn yn golygu y byddai adrannau o'r llinell uwchben bresennol yn cael eu cario ar beilonau newydd, ac adrannau o'r llinell uwchben newydd yn cael eu cario ar beilonau presennol. Gelwir y rhain yn bwyntiau croesi ac maent i'w gweld yn Llun 1.



Llun 1: Darlun o Bwyntiau Croesi

- 2.3.4 Pan fydd y seilwaith newydd yn ei le, bydd dwy linell uwchben; cyfeirir atynt fel yr aliniadau gorllewinol (4AP) a dwyreiniol (4ZA). Mae Ffigur 1 yn dangos ble byddai'r adrannau newydd a phresennol yn cael eu lleoli.
- 2.3.5 O fewn y Terfynau Gwyro, mae cais yn cael ei wneud am ddau ddewis o ran llinell uwchben: Dewis A, a fyddai'n mynd dros eiddo yn Nhalwrn; a Dewis B, a fyddai'n mynd o gwmpas yr eiddo ond yn cynnwys peilon ychwanegol. Mae Dewisiadau A a B i'w gweld yn Ffigur 1.
- 2.3.6 Byddai'r aliniad gorllewinol yn cynnwys 65 peilon newydd a 35 peilon presennol (gyda dau o'r rhain yn cael eu haddasu), sef cyfanswm o 100 (Dewis A), neu 66 peilon newydd a 35 peilon presennol (gyda dau o'r rhain yn cael eu haddasu), sef cyfanswm o 101 (Dewis B).
- 2.3.7 Byddai'r aliniad dwyreiniol yn cynnwys 35 peilon newydd a 70 peilon presennol (gyda thri o'r rhain yn cael eu haddasu), sef cyfanswm o 105 ar gyfer Dewisiadau A a B.
- 2.3.8 Byddai'r peilonau arfaethedig yn rhai dur delltog, tebyg i'r rheini ar y llinell uwchben bresennol ar draws Ynys Môn. Mae Ffotograff 2 yn dangos rhan o'r

llynell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir yng nghyffiniau Tregele. Uchder cyfartalog y peilonau hyn fyddai tua 50m, gyda gwaelod tua 7m x 7m. Mae peilonau'n un ai'n beilonau crog, lle mae'r gwifrau (dargludydd) yn hongian ohonynt, neu'n beilonau tyniant, sy'n strwythurau mwy cadarn sy'n dal dargludyddion mewn tyniant lle mae'r llynell uwchben yn newid cyfeiriad neu i gynnal tensiwn mewn adrannau syth hir.



Ffotograff 2: Y llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir yng nghyffiniau Tregele.

Twunnel

2.3.9 Mae'r National Grid wedi ymrwymo i ddefnyddio ceblau dan y dan y ddaear drwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ac ar draws y Fenai, a hynny i leihau'r effeithiau ar y dirwedd ac i ddiogelu golygfeydd eiconig. Er mwyn gosod y cysylltiad yn y twunnel, rhaid cael y canlynol:

- Prif Dŷ Twunnel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn;
- Twunnel yn cynnwys y ceblau dan y ddaear rhwng Prif Dai Twunnel Afon Braint a Thŷ Fodol; a
- Phrif Dŷ Twunnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yng Ngwynedd.

2.3.10 Lle mae'r cysylltiad yn newid o fod yn llinell uwchben i fod yn gwbl dan y dan y ddaear, rhaid cael compownd lle caiff pennau ceblau eu selio er mwyn darparu pwynt cysylltu.

2.3.11 Mae angen prif dai twunnel i ddarparu mynediad ar gyfer cynnal a chadw at y twunnel a siafftau'r twunnel. Maent yn cynnwys offer awyru i reoli'r tymheredd yn y twunnel yn ogystal ag offer pwmpio i dynnu unrhyw ddŵr o'r twunnel.

- 2.3.12 Byddai'r Prif Dŷ Twnnel a'r Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yn Afon Braint a Thŷ Fodol wedi cael eu lleoli wrth ymyl ei gilydd. Dangosir eu lleoliad ac aliniad dangosol o'r twnnel yn Ffigur 1.
- 2.3.13 Byddai'r ardal y tu mewn i'r ffens ddiogelwch yn cynnwys nenbontydd, cyfarpar selio pennau ceblau, cyflenwad a chompownd Gweithredwr y Rhwydweithiau Dosbarthu (SP Manweb), ystafell gyfnewid gludadwy, prif dai twnnel, ceblau dan ddaear 400kV, tanc dŵr ymladd tân (os oes angen), a thrac mynediad.
- 2.3.14 Mae cynllun Prif Dŷ Twnnel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio i'w weld yn Ffigur 2 a byddai'n tua 8,640 metr sgwâr (m²) mewn maint. Uchder mwyaf posibl y prif dŷ twnnel fyddai 8 m a byddai'n cael ei ddylunio i gyd-fynd ag adeiladau fferm lleol. Byddai'r nenbontydd yn tua 15m o uchder. Cynigir twmpathau tir a phlannu coed a phlanhigion gwyllt o amgylch y compownd gweithredu o fewn ffiniau'r safle. Byddai trac mynediad newydd yn cysylltu'r safle â'r briffordd gyhoeddus.
- 2.3.15 Mae cynllun Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio i'w weld yn Ffigur 3 a byddai'n tua 8,640m². Uchder mwyaf posibl y prif dŷ twnnel fyddai 11m a byddai'n cael ei ddylunio i gyd-fynd ag adeiladau fferm lleol. Byddai'r prif dŷ twnnel hwn yn uwch na Phrif Dŷ Twnnel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio oherwydd byddai'n cynnwys y ffaniau awyru twnnel i gadw'r tymheredd cywir yn y twnnel a gwneud yn siŵr nad ydy'r ceblau'n gorboethi. Byddai'r nenbontydd yn tua 15m o uchder. Cynigir twmpathau a gwaith plannu o amgylch y compownd gweithredu o fewn ffiniau'r safle. Byddai trac mynediad newydd yn cysylltu'r safle â'r briffordd gyhoeddus.
- 2.3.16 Tua 4m fyddai diamedr mewnol y twnnel, a byddai'n tua 4km o hyd. Byddai siafftau'r twnnel yn tua 75m o ddyfnder yn Afon Braint a thua 95m yn Nhŷ Fodol. Byddai'r ddwy siafft yn 15m o led.

Is-orsafoedd

- 2.3.17 Fel rhan o'r Datblygiad Arfaethedig, byddai'n rhaid gwneud gwaith ar yr is-orsafoedd presennol yn Wylfa a Phentir. Byddai hyn yn cynnwys gosod offer ychwanegol, gan gynnwys nenbontydd a gêr switsh, a thynnu offer presennol fel ceblau, gwaith dur a sylfeini. Byddai is-orsaf Wylfa yn cael ei hystyngi, ond dim ond i ganiatáu symud llinell ffens. Byddai is-orsaf Pentir yn cael ei hystyngi i'r gogledd orllewin a'r de ddwyrain i ddarparu ar gyfer yr offer ychwanegol gofynnol. Mae darlun o is-orsaf Pentir yn Ffigur 4 (**Dogfen 5.0.1.4**).

2.4 ADEILADU'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Compowndiau Adeiladu Dros Dro

- 2.4.1 Byddai angen dau gompownd adeiladu dros dro ar gyfer y gwaith ar y llinell uwchben. Byddai'r rhain wedi'u lleoli i ffwrdd o'r ardaloedd gwaith peilonau; un i'r dwyrain o Langefni ar Ynys Môn (Lôn Penmynydd), a'r llall yn union i'r de o is-orsaf Pentir yng Ngwynedd (gweler Ffigur 1). Byddent yn cael eu defnyddio o ddechrau gwaith adeiladu'r llinell uwchben drwy gydol y cam adeiladu, ac yn cynnwys swyddfeydd safle dros dro, cyfleusterau lles a manau storio.
- 2.4.2 Byddai hefyd angen dau gompownd adeiladu ar gyfer y twnnel, y prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio, wedi'u lleoli yn union wrth ymyl y compowndiau. Byddent yn eu lle drwy gydol cam adeiladu'r twnnel ac yn cynnwys swyddfeydd safle dros dro, cyfleusterau lles a manau storio. Byddai hefyd angen compowndiau adeiladu, wedi'u lleoli yn union wrth ymyl pob is-orsaf, ar gyfer y gwaith sydd ei angen yn yr is-orsafoedd (gweler Ffigur 1).

Ardaloedd Gweithio Dros Dro

- 2.4.3 Yn ogystal â'r prif gompowndiau adeiladu, byddai ardaloedd lle byddai angen am ardaloedd gweithio dros dro. Byddai angen yr ardaloedd hyn i adeiladu peilonau unigol, llinynnu'r dargludyddion, cael mynediad at ardaloedd gweithio a gosod draeniau. Gallai'r rhain ymestyn hyd at Derfynau'r Gorchymyn a byddent wedi'u lleoli ar hyd y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r ardaloedd gwaith dros dro hyn i'w gweld yn Ffigur 1.

Llinell Uwchben

- 2.4.4 Byddai'r gweithgareddau adeiladu yn dechrau drwy baratoi a gosod y compowndiau adeiladu. Ar ôl sefydlu'r compowndiau, byddai'r gwaith o adeiladu'r llinell uwchben yn dilyn y drefn gyffredinol ganlynol:
- gosod ffyrdd mynediad a stripio pridd;
 - creu ardaloedd gwaith peilonau;
 - gosod sylfeini'r peilonau;
 - cynllunio'r gwaith dur i baratoi ar gyfer adeiladu'r peilonau;
 - adeiladu gwaith dur y peilonau (gweler Ffotograff 3 – adeiladu peilon llinell uwchben arferol);

- gosod ynnsyddion;
- llinynnu dargludyddion, gan gynnwys lleoli amddiffyniad a gosod safleoedd peiriannau ar gyfer y gwaith llinynnu; a
- thynnu offer adeiladu a mynediadau, ac adfer yr ardaloedd gwaith peilonau a'r compowndiau adeiladu (dychwelyd y tir i'w gyflwr blaenorol).

2.4.5 Efallai y gwneir gwaith clirio llystyfiant cyn neu yn ystod unrhyw o'r gweithgareddau a nodir uchod.



Ffotograff 3: Adeiladu Peilon Llinell Uwchben Arferol

Twunnel

2.4.6 Byddai'r gweithgareddau adeiladu yn dechrau drwy baratoi a gosod y ffyrdd mynediad a'r compowndiau adeiladu ym mhob pen o'r twunnel.

2.4.7 Byddai siafftau twunnel fertigol yn cael eu hadeiladu ym mhob pen o'r twunnel. Mae'n debygol mai'r dull drilio a ffrwydro fyddai'r dull adeiladu a fyddai'n cael ei ddefnyddio (a fyddai'n golygu defnyddio ffrwydron mewn modd wedi'i reoli). Byddai'r siafftau'n caniatáu mynediad ar gyfer adeiladu'r twunnel, a fyddai'n cael ei wneud drwy ddefnyddio peiriant tyllu twunnel neu'r dull 'drilio a ffrwydro'.

- 2.4.8 Byddai'n rhaid gwaredu deunydd gwastraff o'r siafftau ac ardal adeiladu'r twnnel. Byddai rhywfaint o'r deunydd yn cael ei ddefnyddio ar y safle i greu twmpathau tir o amgylch y compowndiau gweithredu, fodd bynnag byddai'r gweddill yn cael ei gario oddi ar y safle, gan gynnwys nifer o symudiadau loriau i ganiatáu i gymaint â phosibl o'r deunydd gwastraff gael ei ailgylchu.
- 2.4.9 Ar ôl adeiladu'r siafftau a'r twnnel, byddai'r ceblau'n cael eu cludo i'r safle ar ddrymiau ceblau. Byddai'r drymiau'n cael eu gollwng i lawr y siafftau mynediad a pheiriannau tynnu ceblau arbenigol yn cael eu defnyddio i lusgo'r ceblau i'w lle.
- 2.4.10 Byddai prif dai twnnel yn cael eu hadeiladu dros y ddwy siafft mynediad; byddai'r rhain yn cynnwys offer awyru siafftau ac yn rhoi mynediad at y siafftau a'r twnnel ar gyfer gweithgareddau arolygu a chynnal a chadw. Byddai Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol hefyd yn cynnwys ffaniau awyru twnnel er mwyn cadw'r tymheredd cywir yn y twnnel a gwneud yn siŵr nad ydy'r ceblau'n gorboethi.
- 2.4.11 Ar ôl cwblhau'r twnnel a gosod y cebl, byddai'r tir y mae'r compowndiau adeiladu wedi'u lleoli, a'r ffyrdd mynediad dros dro, yn cael eu hadfer. Byddai'r prif dai twnnel parhaol a'r mynediadau atynt yn aros.

Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio

- 2.4.12 Byddai'r gwaith o adeiladu Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio Afon Braint a Thŷ Fodol yn cael ei wneud ar ôl cwblhau'r twnnel, ac yn defnyddio'r un compowndiau adeiladu a'r traciau mynediad dros dro â'r twnnel. Byddai'r 'peilon terfynol' neu'r 'nenbont' ac offer trydanol eraill yn cael eu hadeiladu, a byddai cafnau concrit ar gyfer y ceblau dan y ddaear yn cael eu gosod dan y ddaear. Byddai'r ceblau dan y ddaear yn cael eu harwain drwy'r ffosydd i'r strwythurau selio pennau ceblau.
- 2.4.13 Byddai cyfleusterau gosod y safle dros dro yn cael eu tynnu a, lle bo angen, byddai ardaloedd gweithio dros dro yn cael eu dychwelyd i'w cyflwr gwreiddiol. Byddai ffens ddiogelwch parhaol o amgylch ffin y safle yn cael ei chodi a byddai'r ffordd fynediad parhaol at y compownd lle caiff pennau ceblau eu selio yn aros. Byddai'n cael ei rhannu â'r ffyrdd mynediad parhaol at y prif dai twnnel. Byddai gwaith tirweddu ar ffurf plannu a thwmpathau tir yn cael ei wneud hefyd.

Is-orsafodd

- 2.4.14 Mae angen tynnu eitemau o offer presennol o is-orsaf Wylfa, a gosod offer newydd yno. Byddai newid bach i linell bresennol y ffens.

2.4.15 Ar ôl sefydlu compowndiau adeiladu yn is-orsaf Pentir a pharatoi'r safle'n gychwynnol, gan gynnwys tynnu uwchbridd, byddai offer is-orsaf nas defnyddir yn cael eu tynnu a byddai'r offer newydd yn cael ei osod. Byddai'r ffens o amgylch yr is-orsaf yn cael ei hystyn i fynd o amgylch yr offer newydd, byddai'r ffordd fynediad bresennol, arwynebau solet a draenau'n cael eu haddasu, a byddai coetir, gwrychoedd a glaswelltir yn cael eu plannu mewn mannau y naill ochr a'r llall i'r is-orsaf.

2.5 LLWYBRAU TRAFFIG ADEILADU

2.5.1 Y llwybrau traffig adeiladu ydy'r ffyrdd cyhoeddus y bydd cerbydau adeiladu'n teithio i'r safle arnynt ar ôl gadael yr A55. Mae'r llwybrau traffig adeiladu arfaethedig i'w gweld yn Ffigur 5.

2.5.2 Mae Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu wedi cael ei lunio, sy'n darparu manylion o'r mesurau a fyddai ar waith yn ystod y cam adeiladu i leihau effaith y traffig yn ystod cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

2.6 ASED AU TRYDYDD PARTI

2.6.1 I adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig, byddai'n rhaid newid gwasanaethau trydydd parti presennol (er enghraifft llinellau ffôn neu linellau pŵer foltedd isel), un ai drwy osod llinell uwchben y ddaear bresennol o dan y ddaear, neu ail-lwybro cebl dan y ddaear presennol.

2.6.2 Mae'n debygol y byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan berchnogion y gwasanaeth cyn i'r Datblygiad Arfaethedig gael ei adeiladu. Byddai mynediad dros dro, gan ddefnyddio giatiau a thraciau presennol yn cael ei ddefnyddio lle bo'n bosibl, a byddai ffos yn cael ei chloddio (un ai ar gyfer ail-lwybro cebl neu drosglwyddo gwasanaethau uwchben y ddaear). Câi ceblau eu gosod ynddi cyn ei hôl-lenwi. Byddai llinellau uwchben yn cael eu diffodd a'u tynnu, a byddai ceblau presennol yn cael eu gadael yn eu lle; fodd bynnag byddai'r olew yn y ceblau yn cael ei ddraenio a'i waredu'n briodol.

2.7 RHAGLEN ADEILADU

2.7.1 Byddai'r compowndiau adeiladu a'r traciau mynediad dros dro ar gyfer y twnnel, y prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio yn cael eu rhoi yn eu lle rhwng 2020 a 2021. Byddai'r twnnel, gan gynnwys ei siafft, yn cymryd tua 4 blynedd, 2025, i'w adeiladu. Ar ôl cwblhau'r twnnel, byddai'r prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio yn cael eu hadeiladu. Disgwylir i'r gwaith adfer gael ei gwblhau erbyn 2026.

2.7.2 Byddai'r gwaith o osod y compowndiau adeiladu a'r traciau mynediad dros dro ar gyfer y llinell uwchben yn dechrau yn 2022, a'r gwaith o adeiladu ac adfer yr elfennau llinell uwchben yn cael ei gwblhau yn 2026.

2.7.3 Byddai'r gwaith yn is-orsaf Wylfa yn cael ei drefnu rhwng 2024 a 2026. Byddai'r gwaith yn is-orsaf Pentir yn cael ei wneud rhwng 2023 a 2026.

2.8 CYNNAL A CHADW A GWEITHREDU

Llinell Uwchben

2.8.1 Yn ystod y cam gweithredu, byddai'r llinell uwchben 400kV yn trawsyrru trydan o is-orsaf Wylfa i is-orsaf Pentir.

2.8.2 Byddai'r llinell uwchben yn cael ei harolygu'n flynyddol o'r ddaear neu gan hofrennydd. Byddai'r arolygon yn nodi a oes unrhyw namau gweladwy neu arwyddion o draul, ac yn nodi hefyd a oes unrhyw newidiadau wedi bod yn nhwf neu ddatblygiad planhigion neu goed a allai beryglu pellteroedd diogelwch. Byddai'r arolygon yn cadarnhau pa bryd mae angen adnewyddu.

2.8.3 Bydd angen gwneud gwaith trwsio mân neu fân addasiadau o bryd i bryd efallai. Byddai'r gwaith trwsio hwn a'r gwaith rheolaidd o dynnu llystyfiant yn cael ei wneud gan ddefnyddio faniau a thryciau agored i fynd ar y safle ar hyd llwybrau y cytunir arnynt â thirfeddianwyr.

2.8.4 Byddai gwaith adnewyddu yn cael ei wneud ar un ochr peilon ar y tro fel arfer, er mwyn i'r ochr arall allu parhau i gael ei defnyddio. Mae gwaith adnewyddu yn gallu cynnwys y canlynol:

- newid dargludyddion a gwifrau daear (gwifr ar frig y peilon);
- newid ynysyddion a'r gwaith dur sy'n dal y dargludyddion a'r ynysyddion yn eu lle, a ffitiadau dargludyddion;
- paentio neu newid gwaith dur y peilon; a
- newid offer telegyfathrebu.

2.8.5 Mae posibilrwydd o weithgarwch ar hyd y llinell uwchben yn ystod y gwaith adnewyddu. Byddai faniau'n cael eu defnyddio i gludo gweithiwr ymlaen ac yn ôl o'r safle, a byddai tryciau'n cael eu defnyddio i gludo deunyddiau ac offer newydd i'r safle ac i dynnu hen offer. Efallai y bydd angen gwneud gwaith dros dro, a fyddai'n cynnwys llwybrau mynediad a sgaffaldiau, er mwyn diogelu ffyrdd a rheilffyrdd.

Twunnel

- 2.8.6 Ni fyddai criwiau yn y twunnel yn ystod gweithrediad arferol. Byddai ffaniau awyru ym Mhrif Dŷ Twunnel Tŷ Fodol yn tynnu aer drwy'r twunnel er mwyn cadw'r tymheredd sydd ei angen yn y siafftau a'r twunnel i sicrhau nad ydy'r ceblau'n gorboethi.
- 2.8.7 Byddai'r ceblau yn y twunnel yn cael eu harolygu unwaith y flwyddyn o leiaf er mwyn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau sy'n arwain at waith trwsio neu newid efallai. Ceid mynediad drwy'r prif dai twunnel.
- 2.8.8 Byddai newid unrhyw geblau yn y twneli neu offer mwy yn y prif dai twunnel yn golygu bod angen compownd adeiladu dros dro. Ceid mynediad drwy'r ffordd fynediad barhaol. Efallai y bydd angen newid ceblau ar ddiwedd eu hoes weithredol. Pe bai angen tynnu'r hen geblau, byddai dull tebyg i'r un a ddefnyddiwyd i osod y ceblau yn y twunnel ar ôl ei gwblhau yn cael ei ddefnyddio.

Prif Dai Twunnel a Chompowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio

- 2.8.9 Ni fyddai criwiau yn y prif dai twunnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio yn ystod gweithrediad arferol.
- 2.8.10 Byddai gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu gwneud ar y ffaniau, y goleuadau a'r offer eraill yn y prif dai twunnel.
- 2.8.11 Byddai ymweliadau anaml yn cael eu gwneud â'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio i fonitro'r elfennau uwchben, y ceblau dan y ddaear a gwneud gwaith cynnal a chadw a gwiriadau ar yr offer trydanol.
- 2.8.12 Pe bai angen gwneud gwaith adnewyddu a/neu drwsio, byddai ffaniau'n cael eu defnyddio i gludo gweithiwr ymlaen ac yn ôl o'r safle, a byddai tryciau'n cael eu defnyddio i gludo deunyddiau ac offer newydd i'r safle ac i dynnu hen offer. Efallai y bydd angen sgaffaldiau dros dro i ddiogelu unrhyw seilwaith o amgylch y safle.

Is-orsafoedd

- 2.8.13 Byddai'r is-orsafoedd yn dal i weithredu fel y maent ar hyn o bryd.
- 2.8.14 Byddai gwaith cynnal a chadw'n dal i gael ei wneud ar yr is-orsafoedd bob tua tair blynedd. Byddai gwiriadau gweledol yn cael eu gwneud ar ymweliadau arolygu misol â'r safle. Pe bai angen gwneud gwaith adnewyddu neu drwsio ar yr is-orsafoedd, byddai cerbydau'n cael eu defnyddio i gludo gweithiwr ymlaen ac yn ôl o'r safle, a byddai cerbydau addas yn cael eu defnyddio i gludo deunyddiau ac offer newydd i'r safle ac i dynnu hen offer.

2.9 DATGOMISIYNU

Llinell Uwchben

- 2.9.1 Pe na bai angen am y Datblygiad Arfaethedig mwyach a bod y gofynion gweithredu 400kV yn caniatáu, efallai byddai'r llinell uwchben yn cael ei thynnu. Ar ôl ei thynnu, byddai llawer o'r deunyddiau'n cael eu hailgylchu. Byddai angen mynediadau tebyg i'r hyn a amlinellir ar gyfer y cam adeiladu. Yn gyffredinol, byddai angen tynnu'r sylfeini hyd at tua 1.5 m o ddyfnder a dychwelyd yr isbridd a'r uwchbridd.

Twunnel a'r Prif Dŷ Twunnel

- 2.9.2 Pe na bai angen am y cysylltiad 4AP mwyach, byddai'r cebl dan y ddaear yn cael ei ddatgomisiynu. Byddai ceblau'n cael eu tynnu o'r twunnel a'r siafftau'n cael eu capio neu eu hôl-lenwi. Byddai'r prif dai twunnel a'r offer cysylltiedig yn cael eu tynnu a'r deunyddiau'n cael eu hailgylchu. Byddai'r twunnel ei hun yn aros yn ei le.

Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio

- 2.9.3 Byddai angen dulliau ac offer tebyg ar gyfer tynnu'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio i lawr fel yr amlinellir ar gyfer y cam adeiladu. Byddai deunyddiau'n cael eu tynnu a'u hailgylchu. Pa na bai angen am y safle mwyach, byddai'r tir yn cael ei adfer.

Is-orsafodd

- 2.9.4 Pe na bai angen am elfennau o'r naill is-orsaf neu'r llall sy'n rhan o'r Datblygiad Arfaethedig mwyach, byddai'r offer yn cael ei ddatgysylltu a'i dynnu'n ddiogel. Byddai llawer o'r deunyddiau'n cael eu hailgylchu. Byddai angen dulliau ac offer tebyg i'r cam adeiladu ar gyfer tynnu i lawr. Mae Ffotograff 4 yn dangos golygfa o is-orsaf bresennol Pentir.



Ffotograff 4: Golygfa o is-orsaf Pentir

3 Hanes y Prosiect a Dewisiadau Amgen


3.1.1 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn deillio o nifer o rowndiau datblygu'r dyluniad lle ystyriwyd adborth o'r ymgynghoriad, ffactorau amgylcheddol fel safleoedd gwarchodedig ar gyfer cadwraeth natur, planhigion ac anifeiliaid gwarchodedig, y dirwedd, effeithiau gweledol, safleoedd hanesyddol, ffactorau technegol, a chostau yn unol â dyletswyddau statudol y National Grid. Mae'r National Grid wedi ystyried ffyrdd o sicrhau dyluniad da drwy ystyried aliniadau a choridorau llwybr yn ofalus. Bu'r rhain yn destun ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

3.1.2 Mae esblygiad dyluniad y Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei lywio gan y camau canlynol:

- Achos angen: i gadarnhau'r angen i ddatblygu'r system trawsyrru foltedd uchel er mwyn darparu cysylltiad diogel ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd;
- Edrych ar opsiynau yn strategol: i ddatblygu ac asesu offeryn asesu a fyddai'n bodloni'r angen a nodir, gan gynnwys asesiad o dechnolegau amgen a dewis opsiwn i'w weithredu;
- Astudiaeth coridorau llwybr: i ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a diffinio ardaloedd posibl o dir neu 'goridorau llwybr' ar gyfer y llinell uwchben newydd, a nodi'r opsiwn mwyaf priodol i fodloni'r angen;
- Camau ymgynghori cychwynnol: i gasglu barn cyrff statudol, asiantaethau eraill a'r cyhoedd ynghylch yr opsiynau strategol, yr opsiwn cysylltiad a oedd yn cael ei ffafrio a'r opsiynau o ran coridorau llwybr;
- Dewis coridor llwybr: i ystyried pa un o'r coridorau llwybr posibl sy'n cael ei ffafrio a chyhoeddi'r coridor hwnnw;
- Ymgynghoriad anffurfiol: i gasglu barn cyrff statudol, asiantaethau eraill a'r cyhoedd ynghylch yr opsiynau llwybr yn y coridor llwybr sy'n cael ei ffafrio a'r ardaloedd chwilio ar gyfer compowndiau gweithredol; llwybr drafft: datblygu manylion y cysylltiad yn y coridor llwybr sy'n cael ei ffafrio ac ymgynghori ar hynny;

- Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol: i amlinellu dull a chwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig;
- Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio: i ymgynghori â chyrff statudol, asiantaethau eraill a'r cyhoedd ynghylch manylion y cais arfaethedig;
- Adroddiad ar yr adborth i'r ymgynghoriad: adolygu'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio ac ystyried awgrymiadau i ddiwygio'r Datblygiad Arfaethedig; ac
- Ôl-wirio ac adolygu opsiynau: i gymryd y cyfle i ddilysu bod yr achos angen a'r penderfyniadau a wnaed yn yr adroddiadau opsiynau a llwybro yn dal yn ddilys yn sgil unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau.

3.1.3 Mae'r siart lif isod yn dangos sut mae'r National Grid wedi rhoi'r camau uchod ar waith.



4 Ynghylch yr Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol

Cynhelir Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol i ganfod effeithiau sylweddol tebygol prosiect. Wedyn, adroddir ar y rhain mewn Datganiad Amgylcheddol.

4.1 CWMPASU

- 4.1.1 Mae cwmpasu'n helpu i wneud yn siŵr bod y pynciau a drafodir, y wybodaeth waelodlin a'r dulliau asesu i'w defnyddio yn yr Aseiad yn briodol a'u bod wedi ystyried barn ymgynghoreion a phartïon sy'n gwneud penderfyniadau, lle bo'n briodol.
- 4.1.2 Cafodd Adroddiad Cwmpasu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ei baratoi a'i gyhoeddi i'r Arolygiaeth Gynllunio. Roedd hwn yn nodi cwmpas y materion yr oedd y National Grid yn credu y dylai'r Aseiad eu trafod, ac yn seiliedig ar ymgynghoriad cychwynnol, chwiliadau data ac arolygon gwaelodlin. Cyhoeddwyd Barn Gwmpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a oedd yn nodi'r hyn yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu bod yr Aseiad yn ei drafod, ar ôl ymgynghori ag amrywiaeth o gyrff statudol ac ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu.
- 4.1.3 Ar ddechrau pob pennod o'r Datganiad Amgylcheddol, mae tabl yn nodi'r pwyntiau a wnaed ym Marn Gwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn esbonio sut mae pob pwynt wedi cael ei drin a'i drafod.

4.2 PROSES YR ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 4.2.1 Mae prif gamau'r broses asesu wedi cael eu nodi isod:

Gwaelodlin

Mae'r amgylchedd presennol a allai gael ei effeithio yn cael ei asesu er mwyn sefydlu ei werth a/neu ei sensitifrwydd.

Nodi Effeithiau Amgylcheddol Posibl

Mae effeithiau posibl y datblygiad yn cael eu nodi er mwyn ystyried y cydadwaith posibl rhyngddynt a'r amgylchedd presennol.

Rhag-weld Effeithiau Amgylcheddol Posibl

Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl yn cael eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf sy'n seiliedig ar ymarfer da a chanllawiau sy'n cael eu derbyn er mwyn nodi'r effeithiau sylweddol tebygol.

Nodi Mesurau Lliniaru ac Addasiadau i'r Dyluniad

Wedyn, mae addasiadau i ddyluniad y datblygiad a mesurau lliniaru yn cael eu nodi er mwyn osgoi, lleihau neu wrthbwysu'r effeithiau negyddol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol.

Gwerthuso ac Asesu Arwyddocâd

Mae arwyddocâd effeithiau amgylcheddol wedyn yn cael ei asesu'n unol â chanllawiau sy'n cael eu derbyn, gan ystyried dyluniad terfynol y datblygiad, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru yr ymrwymwyd iddynt (effeithiau

Effeithiau Cronnus

Mae effeithiau rhwng prosiectau (effeithiau cyfunol y datblygiad a datblygiadau eraill) ac effeithiau o fewn y prosiect (effeithiau cyfunol sy'n codi o ganlyniad i'r datblygiad, er enghraifft ar un derbynnydd neu adnodd) yn cael eu hasesu hefyd.

Cyflwyno canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn y Datganiad Amgylcheddol

- 4.2.2 Mae Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn mynnu bod effeithiau sylweddol tebygol y Datblygiad Arfaethedig yn cael eu nodi. Mae'r Asesiad yn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol y Datblygiad Arfaethedig ac yn asesu eu harwyddocâd yn seiliedig fel arfer ar gyfuniad o sensitifrwydd neu werth y nodwedd neu'r adnodd gwaelodlin yr effeithir arno (a elwir yn dderbynnydd hefyd), a maint yr effaith a fyddai'n digwydd (a elwir yn raddfa'r newid hefyd), neu'r newid gwirioneddol yn yr amgylchedd. Mae'r Asesiad yn ystyried amrywiaeth o wahanol ffactorau, gan gynnwys:

- deddfwriaeth, safonau polisi, canllawiau neu werth amgylcheddol y derbynnydd;
- gallu'r derbynnydd i addasu i newid ac adfer o'r newid hwn; a
- tebygolrwydd o effaith yn ogystal â'i hyd (boed dros dro neu barhaol).

4.2.3 Mae'r effeithiau sylweddol tebygol yn cael eu hasesu ar gyfer pob cam datblygu (adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, a datgomisiynu). Bydd yr effeithiau adeiladu yn rhai dros dro, tymor byr yn aml, wedi'u cyfyngu i'r cam adeiladu'n unig. Yr effeithiau parhaol ydy'r rheini a allai ddechrau yn ystod y cam adeiladu, ond byddai wedyn yn parhau y tu hwnt i'r cam hwnnw, yn y tymor canolig neu'r tymor hir. Yr effeithiau gweithredu ydy'r rheini sy'n digwydd pan fydd y datblygiad yn cael ei ddefnyddio. Ni fyddai effaith negyddol sylweddol yn gwneud y Datblygiad Arfaethedig yn annerbyniol o reidrwydd, ac ni fyddai effaith gadarnhaol sylweddol yn gwneud y Datblygiad Arfaethedig yn dderbyniol o reidrwydd. Pwrpas nodi'r effeithiau sylweddol (cadarnhaol a negyddol) ydy gwneud yn siŵr bod pob parti, yn enwedig y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol (yn enwedig y rheini sy'n debygol o fod yn sylweddol) datblygiad, ac yn ystyried y rhain ar y cyd ag ystyriaethau eraill wrth ddod i benderfyniad ynghylch cais am DCO.

4.2.4 Mae manylion am broses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'i ganlyniadau i'w gweld yn y Datganiad Amgylcheddol. Cyflwynir y canlyniadau fel effeithiau gweddilliol (y rheini sy'n weddill ar ôl mesurau lliniaru).

4.3 LLINIARU

4.3.1 Drwy gydol proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae amrywiaeth o fesurau lliniaru wedi cael eu nodi a'u hymgorffori yng nghamau dylunio, adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae dull safonol ar gyfer datblygu mesurau lliniaru wedi cael ei fabwysiadu:

- Lliniaru drwy Ddylunio: Mae'r rhain yn fesurau sydd wedi cael eu hymgorffori yn nyluniad y Datblygiad Arfaethedig, fel llwybro'r llinell uwchben i osgoi cynifer o leoliadau sensitif â phosibl.
- Mesurau Rheoli: Ymysg y mesurau hyn mae defnyddio ysgubwyr ffordd ac ati, sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu a chynlluniau rheoli eraill.
- Mesurau Lliniaru: Mae'r rhain yn fesurau sy'n mynd y tu hwnt i'r lliniaru drwy ddylunio, er enghraifft unrhyw beth sydd wedi cael ei

ychwanegu at y dyluniad dim ond i leihau effaith fel plannu ar gyfer y dirwedd.

- 4.3.2 Ymrwymid i'r mesurau lliniaru hyn drwy Ofynion penodol yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft. Ar ôl rhoi'r Gorchymyn, byddai'r Gofynion wedi'u rhwymo'n gyfreithiol.

5 Canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

5.1 TROSOLWG

5.1.1 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn darparu manylion am y wybodaeth waelodlin a gasglwyd a'r asesiad a gynhaliwyd, gan nodi effeithiau sylweddol tebygol a'r mesurau lliniaru sydd eu hangen i leihau'r effeithiau negyddol a nodwyd neu i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd.

5.1.2 Mae'r pynciau canlynol wedi cael eu cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol:

- Asesu'r Dirwedd;
- Asesiad Gweledol;
- Ecoleg a Chadwraeth Natur;
- Yr Amgylchedd Hanesyddol;
- Daeareg, Hydroddaeareg a Chyflwr y Tir;
- Ansawdd Dŵr, Adnoddau a'r Perygl o Lifogydd;
- Traffig a Thrafnidiaeth;
- Ansawdd Aer ac Allyriadau;
- Sŵn a Dirgryndod Adeiladu;
- Sŵn Gweithredu;
- Elfennau economaidd-gymdeithasol;
- Amaethyddiaeth; ac
- Effeithiau Cronnus.

5.2 ASESU'R DIRWEDD

5.2.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r asesiad o effeithiau sylweddol tebygol sy'n codi o'r Datblygiad Arfaethedig, yn enwedig dynodiadau, cymeriad a phrif nodweddion y dirwedd bresennol.

Crynodeb o'r Waelodlin

- 5.2.2 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn croesi hanner dwyreiniol tirwedd Ynys Môn, sy'n cynnwys tirffurf iseldir bryniog, gyda chreigiau brig unig ac uchel Mynydd Parys a Mynydd Bodafon yn torri ar ei draws. Mae Ynys Môn yn gogwyddo o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin yn gyffredinol, gyda chribau a chysiau dŵr yn dilyn yr un patrwm yn gyffredinol. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig ar Ynys Môn yn croesi'r ynys mewn cyfeiriad cyffredinol o'r gogledd orllewin i'r de ddwyrain, tuag at Afon Menai. Byddai wedyn yn mynd o dan y Fenai mewn twnnel ac yn ailymddangos fel llinell uwchben ar y tir mawr yng Ngwynedd lle mae'r tirffurf bryniog yn newid tua ffiniau uwchdir Eryri. Mae'r tirffurf, yn gyffredinol, yn gogwyddo i lawr o ardal fynyddig Eryri i'r arfordir ac aberoedd y gogledd a'r gorllewin. Byddai'r rhan fwyaf o'r llwybr yn rhedeg fwy neu lai'n gyfochrog â'r llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsafoedd Wylfa a Phentir.
- 5.2.3 Mae'r dirwedd yn wledig ac yn eithaf prin o ran gorchudd coed yn y gogledd, ond mae'r gorchudd hwn yn cynyddu tua de'r ardal. Mae ffiniau'r caeau'n cynnwys cymysgedd o wrychoedd, waliau cerrig, cloddiau (waliau cerrig sych ar y tu allan gyda phridd wedi'i gywasgu neu bridd/rwbel y tu mewn), a ffensys post a weiren.
- 5.2.4 Mae llawer o ddynodiadau tirwedd yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn y mae'r twnnel yn mynd odani yn y Fenai, wyth Ardal Tirwedd Arbennig y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn pasio drwy un ac o dan un arall, ac Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn, sydd 440m i ffwrdd o Derfynau'r Gorchymyn. Ar y pwynt agosaf, mae Parc Cenedlaethol Eryri tua 6km i'r de o'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.2.5 Mae Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd Landmap¹ wedi cael eu defnyddio i ddisgrifio gwerth cymeriad y dirwedd. Mae 51 ardal o'r fath wedi cael eu hystyried yn yr asesiad.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.2.6 Yn ystod cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig, rhagwelir effeithiau negyddol sylweddol o ganlyniad i golli coed o fewn Terfynau'r Gorchymyn (rhwng is-orsafoedd Wylfa a Phentir). Byddai'r effeithiau hyn yn rhai tymor byr oherwydd byddai coed newydd yn dod yn eu lle, a hynny mor agos â phosibl

¹ Mae'r agwedd Weledol a Synhwyrdd yn broses o fapio'r hyn y sylwir arno drwy synhwyrdd, o nodweddion gorchudd tir a thirffurf, eu patrymau a'u cysylltiadau mewn ardaloedd.

i le cawsant eu tynnu. Mae nifer y coed fydd yn cael eu colli wedi cael ei leihau drwy lwybro a lleoli ofalus o ran gwahanol rannau o'r Datblygiad Arfaethedig a gweithredu'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**), a fyddai'n gwneud yn siŵr bod llystyfiant ger y gweithgareddau adeiladu yn cael ei ddiogelu os oes modd.

- 5.2.7 Byddai'r coed a'r gwrychoedd sy'n cael eu tynnu yn cael eu hamnewid/ailblannu yn eu safle gwreiddiol lle bo hynny'n bosibl. Er y byddai rhywfaint o llystyfiant yn cael ei dynnu, byddai'r gwaith plannu lliniarol ym Mhrif Dai Twnnel Afon Braint a Thŷ Fodol a'r Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio, ac is-orsaf Pentir, yn golygu y byddai mwy o llystyfiant ar ôl y cam adeiladu na sydd yno ar hyn o bryd.
- 5.2.8 Rhagwelir y bydd gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys presenoldeb cerbydau adeiladu, offer, compowndiau adeiladu a mynediadau, yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd Llain Lefn y Canol, Cribau'r De Orllewin a Bethel (rhwng Clynnog a Bangor).
- 5.2.9 Rhagwelir y byddai effeithiau negyddol sylweddol ar Ardal Tirwedd Arbennig Tiroedd Stad De Ynys Môn o ganlyniad i gam adeiladu Prif Dŷ Twnnel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio, Compownd Adeiladu Afon Braint a'r traciau mynediad cysylltiedig yn yr ardal. Fel y disgrifir yn adran 2.4.13, byddai'r ardaloedd sy'n cael eu defnyddio dros dro ar gyfer gwaith adeiladu yn cael eu dychwelyd i'w defnydd gwreiddiol ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben. Fodd bynnag, byddai'r prif dŷ twnnel, y compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio a'r ffordd fynediad barhaol yn aros.
- 5.2.10 Yn ystod y cam adeiladu, ni fyddai effeithiau sylweddol ar Barc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn, nac unrhyw un o'r Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig eraill a aseswyd. Ni fyddai chwaith effeithiau sylweddol ar ffiniau caeau na thirffurf yn ystod y cam adeiladu.

Y cam gweithredu

- 5.2.11 Mae effeithiau negyddol sylweddol wedi cael eu hosgoi drwy ddylunio'r Datblygiad Arfaethedig er mwyn iddo redeg wrth ymyl y llinell uwchben bresennol cymaint ag y bo modd, drwy gyfeirio'r llinell uwchben er mwyn osgoi colli llystyfiant lle bo modd, osgoi nodweddion tirwedd pwysig fel creigiau brig, a rhoi'r cysylltiad mewn twnnel i osgoi croesi'r Fenai â llinell uwchben.
- 5.2.12 Ym mlwyddyn gyntaf y cam gweithredu, disgwylir effeithiau negyddol sylweddol ar Ardal Agwedd Weledol a Synhwyrdd Llain Lefn y Canol o ganlyniad i'r llinell uwchben yn tynnu'n groes i'r tirffurf yng Nghapel Coch a'i

bod i ffwrdd o'r llinell uwchben bresennol i'r dwyrain o Gapel Coch. Erbyn blwyddyn 15, pan fydd y planhigion wedi tyfu, byddai'r effeithiau'n llai oherwydd byddai'r planhigion yn sicrhau bod y llinell uwchben yn cydweddu â'r dirwedd. Yn yr un modd, byddai'r effeithiau a ragwelir a achosir gan Brif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd Cribau'r De Orllewin yn lleihau o fod yn effeithiau negyddol sylweddol i fod yn effeithiau negyddol nad ydynt yn sylweddol pan fydd y planhigion wedi tyfu. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau ar Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd Cribau'r De Orllewin o ganlyniad i'r llinell uwchben yn sylweddol drwy gydol y cam gweithredu.

- 5.2.13 Mae disgwyl effeithiau negyddol sylweddol ar Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd Llain Lefn y Dwyrain o ganlyniad i effeithiau'r llinellau uwchben newydd a phresennol a achosir gan y llinellau yn peidio â bod ochr yn ochr yn yr ardal hon.
- 5.2.14 Rhagwelir y byddai effeithiau negyddol sylweddol ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig Tiroedd Stad De Ynys Môn o ganlyniad i bresenoldeb y llinell uwchben, Prif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio, a'i drac mynediad yn yr ardal. Byddai'r elfennau hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd, synnwyr o le a llonyddwch y dirwedd.
- 5.2.15 Er y byddai'r planhigion o amgylch Prif Dŷ Twannel Afon Braint, y Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ac estyniad is-orsaf Pentir yn helpu i sicrhau bod yr elfennau hyn yn cydweddu ag Ardal Agwedd Weledol a Synhwyrdd Bethel, rhagwelir effeithiau negyddol sylweddol ar yr ardal ym mlynnyddoedd 1 a 15 o ganlyniad i'r rhain a'r llinell uwchben.
- 5.2.16 Byddai planhigion newydd ym Mhrif Dŷ Twannel Afon Braint a Thŷ Fodol a'r Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yn cael eu dylunio er mwyn helpu i sicrhau bod yr adeiladau'n cydweddu â'r dirwedd. Hefyd, byddai tir yn y lleoliadau hyn yn cael ei siapio i helpu i sgrinio'r adeiladau o'r ardaloedd cyfagos. Byddai planhigion newydd yn is-orsaf Pentir yn lliniaru yn erbyn colli sgrinio presennol ac effeithiau'r estyniad ar y dirwedd.
- 5.2.17 Yn ystod y cam gweithredu, ni fyddai effeithiau sylweddol ar Barc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn, nac unrhyw un o'r Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyrdd a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig eraill. Ni fyddai chwaith unrhyw effeithiau sylweddol ar ffiniau caeau na thirffurf yn ystod y cam gweithredu, ac erbyn blwyddyn 15 y cam gweithredu ni fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar orchudd coed.

Cynnal a Chadw a Datgomiynu

- 5.2.18 Rhagwelir y byddai'r gweithgareddau cynnal a chadw a datgomiynu yn arwain at effeithiau heb fod yn fwy na'r rhai a ragwelir yn ystod y cam adeiladu, oherwydd byddai'r gweithgareddau'n digwydd dros gyfnod byrrach a byddent yn llai ymwithiol na'r rheini sydd eu hangen ar gyfer y gwaith adeiladu. Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar orchudd coed, ffiniau caeau na thirffurf yn ystod y cam cynnal a chadw na'r cam datgomiynu.



Ffotograff 5: Llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir – Talwrn i Langefni

5.3 ASESIAID GWELEDOL

- 5.3.1 Mae'r asesiad gweledol yn canolbwyntio ar yr effeithiau posibl o ran golygfeydd ar yr ardal o gwmpas unigolion neu grwpiau o bobl, gan gynnwys pobl sy'n byw yn yr ardal, sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ynddi neu'n teithio drwyddi.

Crynodeb o'r Waelodlin

- 5.3.2 Mae tirffurf iseldir bryniog a natur agored y rhan fwyaf o Ynys Môn yn caniatáu golygfeydd pellter hir tuag at ac ar hyd y llinell uwchben bresennol, yn enwedig i ogledd yr Ynys, lle nad oes cymaint o orchudd coed.
- 5.3.3 Mae'r tirffurf yn gogwyddo o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin yn gyffredinol ar draws Ynys Môn, gyda chribau a chysiau dŵr yn dilyn yr un patrwm. Mae rhwydwaith ffyrdd lleol Ynys Môn yn rhedeg ar hyd brig cribau yn aml. Mae

golygfeydd pellter hir, ongl eang o leoliadau ar hyd y cribau isel hyn, o greigiau brig uchel Mynydd Parys a Mynydd Bodafon, ac o fryniau Mynydd Eilian a Mynydd y Garn. Mae hefyd golygfeydd pellter hirach o rai o'r ardaloedd is, fel Cors Ddyga.

- 5.3.4 Ar Ynys Môn, mae'r llinell uwchben bresennol i'w gweld yn fwyaf amlwg ar y nenlinell lle mae'n croesi dros y cribau o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin, yn enwedig yn Rhosgoch, Capel Coch a'r uwchdir/crib i'r gogledd orllewin o Lanfairpwll.
- 5.3.5 I'r de o Afon Menai yng Ngwynedd, mae tirffurf mwy bryniog yn newid tua ffiniau uwchdir Eryri. Mae golygfeydd pellter hir o Ynys Môn i'w gweld o'r ucheldiroedd hyn. Gellir gweld y llinell uwchben 400kV bresennol ar y nenlinell mewn rhai golygfeydd o Wynedd. Mae golygfeydd pellter hir o'r llinell uwchben 400kV bresennol sydd yng Ngwynedd yn gyfyngedig oherwydd y tirffurf a'r ardaloedd o goetir sy'n sgrinio, yn hidlo ac yn cyfeirio golygfeydd. Fodd bynnag, mae rhai golygfeydd pellter hir o'r llinell uwchben 400kV bresennol, wrth iddo nesáu at is-orsaf Pentir, i'w gweld o dir uwch. Mae is-orsaf Pentir wedi cael ei sgrinio'n arbennig o dda gan llystyfiant, ond mae golygfeydd o leoliadau uwch yn edrych i lawr ar yr is-orsaf. Mae adran o'r llinell uwchben 400kV bresennol rhwng is-orsaf Wylfa ac is-orsaf Pentir, o Dalwrn i Langefni, i'w gweld yn Ffotograff 5.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.3.6 Mae gweithgareddau adeiladu ar hyd y llinell uwchben ac yn y compowndiau adeiladu twnnel yn debygol o effeithio ar olygfeydd yn ystod y cam adeiladu o ganlyniad i dynnu llystyfiant, gwaith cloddio, traffig adeiladu, symud offer a phresenoldeb mynediadau a chompowndiau safle dros dro. Byddai'r effeithiau adeiladu yn rhai tymor byr. Ar ôl i'r cam adeiladu ddod i ben, byddai unrhyw goed a gwrychoedd y cafodd eu tynnu yn cael eu hail-blannu yn agos i le cawsant eu tynnu. Yn ystod y cam adeiladu, mae'r effeithiau negyddol sylweddol yn gyfyngedig i gymunedau sy'n agos iawn i'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.3.7 O blith y 51 o gymunedau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad, nodwyd y bydd 15 yn dioddef effeithiau gweledol negyddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu. Sef:
- Cemaes;
 - Tregele;

- Bodewryd;
- Llanfechell;
- Rhosgoch a Four Crosses;
- Rhosybol;
- Llandyfrydog;
- Hebron a Maenaddwyn;
- Capel Coch;
- Cefniwrch;
- Talwrn;
- Star;
- Llanddaniel Fab;
- Pentir; a
- Rhiwlas.

5.3.8 Byddai'r effeithiau hyn yn deillio o weithgareddau adeiladu mewn lleoliadau peilonau, presenoldeb traciau mynediad, sgaffaldiau, offer a symudiadau cerbydau adeiladu. Mewn lleoliadau ymhellach i ffwrdd o'r Datblygiad Arfaethedig, byddai'r effeithiau negyddol yn deillio o offer adeiladu uwch yn cael eu gweld mewn safleoedd peilonau.

5.3.9 Rhagwelir y bydd effeithiau negyddol sylweddol lleol ar un gymuned, Pentir, o ganlyniad i'r gweithgareddau adeiladu sy'n gysylltiedig â Chompownd Adeiladu Tŷ Fodol, y mynediadau adeiladu a'r symudiadau traffig sy'n gysylltiedig â'r twnnel, a'r estyniad i is-orsaf Pentir.

5.3.10 Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer y cymunedau eraill a aseswyd gan fod y cymunedau hyn un ai'n ddigon pell i ffwrdd o'r Datblygiad Arfaethedig, eu bod eu golygfeydd mewn cyfeiriad gwahanol i'r Datblygiad Arfaethedig, neu mae adeiladau a/neu lystyfiant yn cuddio'r Datblygiad Arfaethedig.

5.3.11 Byddai effeithiau negyddol ar y golygfeydd sydd gan lawer o eiddo hefyd. Byddai effeithiau ar eiddo sy'n agos i'r gweithgareddau adeiladu, eiddo sydd â golygfeydd o nifer o ardaloedd adeiladu/sydd â gweithgareddau o'u

cwmpas, ac eiddo sy'n agos i'r prif dŷ twnnel a'r safleoedd compowndiau selio pennau o ganlyniad i ba mor hir byddai'r gweithgareddau adeiladu yn ei gymryd yn y lleoliadau hyn a faint o draffig adeiladu fyddai yno.

- 5.3.12 Yn ystod y cam adeiladu, rhagwelir y bydd effeithiau negyddol sylweddol ar 17 o'r hawliau tramwy cyhoeddus a aseswyd, gan eu bod wedi'u lleoli wrth ymyl y Datblygiad Arfaethedig neu fod ganddynt olygfeydd agos ar hyd adran o'r llwybr.
- 5.3.13 Byddai Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 a Llwybr Beicio Lleol Hebog sy'n pasio drwy Gapel Coch, a Llwybr Beicio Lleol Nico sy'n pasio drwy Rosgoch a Rhosybol yn cael effeithiau negyddol sylweddol yn ystod y cam adeiladu gan eu bod yn agos i'r gwaith adeiladu ac, yn achos Llwybr Beicio Lleol Nico, yn rhedeg wrth ymyl y gwaith adeiladu am ran helaeth o'r Llwybr.
- 5.3.14 Byddai effeithiau negyddol sylweddol ar y golygle uwch² ger Gaerwen yn ystod cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig oherwydd byddai ymagoriad yn y lleoliad hwn. Felly byddai'r golygfeydd yn cynnwys traciau mynediad a gweithgareddau adeiladu.
- 5.3.15 Yn ystod y cam adeiladu, byddai effeithiau negyddol sylweddol ar 11 ffordd sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r Datblygiad Arfaethedig ac sydd â golygfeydd ar hyd adrannau hir o'r llinell uwchben neu sy'n agos i'r compowndiau adeiladu twnnel.

Y cam gweithredu

- 5.3.16 Byddai presenoldeb parhaus y llinell uwchben, y prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio, a thynnu gwrychoedd a choed i wneud lle i'r llinell uwchben ac i gadw pellteroedd clirio diogelwch i'r llinell uwchben yn debygol o achosi effeithiau tymor hirach drwy newid y golygfeydd presennol. Mae dyluniad y Datblygiad Arfaethedig, sef ei leoli wrth ymyl y llinell uwchben bresennol, yn helpu i leihau'r effeithiau gweledol.
- 5.3.17 Yn ystod y cam gweithredu, nodir y bydd effeithiau gweledol negyddol sylweddol ar 12 o gymunedau. Sef:
- Cemaes;
 - Tregele;

² Golygleoedd uwch ydy golygleoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan arwyddion gwybodaeth twristiaeth brown ar y rhwydwaith ffyrdd, sy'n cael eu nodi ar fapiau ffordd fel golygleoedd, ac sydd â byrddau dehongli a meysydd parcio cysylltiedig efallai.

- Llanfechell;
- Rhosgoch a Four Crosses;
- Rhosybol;
- Llandyfriedog;
- Hebron a Maenaddwyn;
- Capel Coch;
- Cefniwrch;
- Talwrn;
- Llanddaniel Fab; a
- Rhiwlas.

5.3.18 Rhagwelir y bydd effeithiau negyddol sylweddol ar ddwy gymuned, Star a Phentir. Yn Star, mae'r effeithiau hyn yn digwydd o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig yn symud i ffwrdd o'r llinell uwchben bresennol ynghyd â'r tir uwch yn darparu golygfeydd pellter hir tuag at Eryri. Ym Mhentir, byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn cael effaith ar olygfeydd pellter hir tuag at Ynys Môn, fodd bynnag, byddai'r effeithiau'n lleihau wrth i'r planhigion arfaethedig dyfu.

5.3.19 Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer y cymunedau eraill a aseswyd gan fod y cymunedau hyn un ai'n ddigon pell i ffwrdd o'r Datblygiad Arfaethedig, eu bod eu golygfeydd mewn cyfeiriad gwahanol i'r Datblygiad Arfaethedig, neu mae adeiladau a/neu lystyfiant yn cuddio'r Datblygiad Arfaethedig.

5.3.20 Byddai effeithiau sylweddol ar olygfeydd preifat llawer o eiddo hefyd lle byddent yn agos iawn i'r llinell uwchben arfaethedig neu byddai ganddynt olwg amlwg ar y llinell uwchben. Byddai eiddo y nodwyd y bydd effeithiau negyddol arnynt yn gallu elwa ar blanhigion i leihau effaith y llinell uwchben newydd, gan ddarparu rhywfaint o sgrinio i dderbynyddion hefyd.

5.3.21 Yn ystod y cam gweithredu, byddai effeithiau negyddol sylweddol ar 21 o hawliau tramwy cyhoeddus gan fod y llwybr yn pasio o dan y llinell uwchben neu'n agos iawn iddi. Yn gyffredinol, mae'r rhain wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy agored, gyda phrinder gorchudd llystyfiant yng ngogledd Ynys Môn.

- 5.3.22 Er bod llawer o'r llwybrau beicio a nodwyd yn yr asesiad yn pasio o dan y Datblygiad Arfaethedig, nid ydy'r effeithiau yn ystod y cam gweithredu yn rhai sylweddol gan mai byr ydy'r golygfeydd.
- 5.3.23 Yn ystod y cam gweithredu, byddai peilonau newydd yn amlwg yn y golygle uwch ger Gaerwen, ac yn cynyddu'r effeithiau gweledol sydd eisoes yn bodoli o ganlyniad i'r llinell uwchben bresennol. Felly byddai effaith negyddol sylweddol ar dderbynyddion yn y golygle hwn.
- 5.3.24 Yn ystod y cam gweithredu, nodir y bydd effeithiau negyddol sylweddol ar dair ffordd ger prif dŷ twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau hyn yn lleihau wrth i'r planhigion lliniarol dyfu.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

- 5.3.25 Rhagwelir y byddai'r gweithgareddau cynnal a chadw a datgomisiynu yn arwain at effeithiau heb fod yn fwy na'r rhai a ragwelir yn ystod y cam adeiladu, oherwydd byddai'r gweithgareddau'n digwydd dros gyfnod byrrach a byddent yn llai ymwithiol na'r rheini sydd eu hangen ar gyfer y gwaith adeiladu. Ni fyddai effeithiau datgomisiynu yn sylweddol yn y tymor hir, oherwydd byddai peilonau'n cael eu tynnu o'r golwg, gan eu dychwelyd i'r waelodlin, ac eithrio unrhyw waith tynnu llystyfiant byddai angen amdano.

5.4 ECOLEG A CHADWRAETH NATUR

- 5.4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r effeithiau a ragwelir ar blanhigion ac anifeiliaid, o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal ag ardaloedd sydd wedi'u gwarchod oherwydd eu gwerth o ran cadwraeth natur.

Crynodeb o'r Waelodlin

- 5.4.2 Mae amrywiaeth o gynefinoedd (ardaloedd lle mae planhigion ac anifeiliaid yn byw) sy'n nodweddiadol o dir amaethyddol gwledig wedi cael eu nodi ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig. Nodweddion pennaf y rhain yw glaswelltir wedi'i wella, sy'n cael ei bori gan wartheg a defaid. Yn nodweddiadol, mae ffiniau'r caeau yn cynnwys ffensys, gwrychoedd, waliau cerrig sych a chloddiau (waliau cerrig sych ar y tu allan gyda phridd wedi'i gywasgu neu bridd/rwbel y tu mewn). Mae llystyfiant lled-naturiol yn cynnwys amrywiaeth o fathau o laswelltir; gyda phrysgwydd a rhostir wedi'u gwasgaru ymhlith y glaswelltiroedd. Prin iawn yw'r cynefin rhostir ar hyd y llwybr; ond mae tameidiau o'r cynefinoedd i'w gweld ar ffiniau'r caeau.
- 5.4.3 Nid oes llawer o orchudd coed yn gyffredinol, yn arbennig tua phwynt gogleddol y Datblygiad Arfaethedig. Mae cynefin coetir yn fwy eang ei

wasgariad yn y de. Mae ardaloedd o goetir hynafol lled-naturiol, gan gynnwys enghreifftiau sydd wedi'u hadfer, i'w gweld ar hyd y Fenai ac ym Mharc y Faenol, ac mae llecynnau bychan ar hyd y llwybr arfaethedig hefyd. Mae coetiroedd planhigfeydd, gan gynnwys coetiroedd hynafol, yn fwy cyffredin tua rhan ddeheuol y Datblygiad Arfaethedig, yn arbennig yng Ngwynedd.

5.4.4 Mae cyrsiau dŵr, draeniau a phyllau wedi'u gwasgaru ar hyd y Datblygiad Arfaethedig.

5.4.5 Mae rhannau o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn safleoedd dynodedig ac mae safleoedd eraill hefyd yn agos iawn at y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r safleoedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Môn;
- Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy;
- Darpar Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Gogledd Ynys Môn;
- Safle Ramsar Corsydd Môn a Llyn;
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof;
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Erddreiniog;
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Caeau Talwrn;
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Cors Erddreiniog (gweler Ffotograff 6);
- Safle Bywyd Gwyllt Sirol Maen Eryr;
- Safle Bywyd Gwyllt Sirol Gylched Covert;
- Darpar Safle Bywyd Gwyllt Sirol Coed Ty'n-llwyn;
- Darpar Safle Bywyd Gwyllt Sirol Coed Rhos-fawr;
- Darpar Safle Bywyd Gwyllt Sirol Is-orsaf Pentir; a
- Darpar Safle Bywyd Gwyllt Sirol Parc Nant-y-garth, ymysg eraill.

5.4.6 Mae arolygon ecoleg wedi cadarnhau bod anifeiliaid pwysig a warchodir yn bresennol yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys moch daear, dyfrgwn, llygod y dŵr, ystlumod, gwiwerod coch, ysgyfarnogod, madfallod dŵr cribog, ymlusgiaid, adar, pysgod ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn.



Ffotograff 6: Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Erddreiniog

- 5.4.7 Mae'r Fenai yn gorff cul o ddŵr arfordirol sy'n gwahanu Ynys Môn a'r tir mawr. Mae'n cynnwys casgliad amrywiol o gynefinoedd rhynglanw (yr ardal sydd uwch ben y dŵr pan fydd y llanw'n isel ac o dan ddŵr pan fydd y llanw'n uchel) ac islanw (yr ardal sydd o dan linell ddŵr y llanw isel). Mae'n rhan o Safle Dynodedig Ewropeaidd Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy oherwydd amrywiaeth ac ansawdd y cynefinoedd morol ar lefel isaf y dŵr.
- 5.4.8 Mae'r Fenai'n llwybr teithio pwysig ar gyfer eog yr Iwerydd a brithyll y môr ac mae'n cynnal cymuned amrywiol o rywogaethau pysgod morol. Mae rhannau o'r Fenai hefyd yn cynnal pysgodfeydd pysgod cregyn masnachol pwysig. Mae llamhidyddion, dolffiniaid trwyn potel a morloi llwyd hefyd yn teithio ar hyd y Fenai o bryd i'w gilydd.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.4.9 Mae llwybr y Datblygiad Arfaethedig wedi arwain at lai o effeithiau uniongyrchol ar safleoedd dynodedig a chynefinoedd pwysig eraill, fel coed a gwrychoedd. Ond, byddai cynefinoedd yn cael eu colli, gan gynnwys ardaloedd bychan mewn safle dynodedig, oherwydd gwaith clirio llystyfiant a'r tir a defnyddio tir dros dro. Byddai cynefinoedd yn cael eu hadfer yn bennaf ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, a phan fo hynny'n bosibl, byddent

yn cael eu gwella. Byddai pwll yn cael ei golli dros dro yn ystod y cam adeiladu. Ond, byddai'n cael ei roi yn ei ôl ar ôl i'r cam adeiladu ddod i ben.

- 5.4.10 Gallai clirio cynefinoedd ar gyfer y gwaith adeiladu arwain at dorri (rhannu) a darnio (chwalu) unrhyw gynefin a fyddai ar ôl yn yr ardal leol a thorri a darnio llwybrau mynediad, bwyd a/neu deithio. Yn gyffredinol, byddai'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol ar ôl y cam adeiladu, ac eithrio rhai ardaloedd coetir, felly er y byddai rhai effeithiau bach, ni ystyrir yr effeithiau hyn yn rhai sylweddol.
- 5.4.11 Ni fyddai effaith sylweddol ar unrhyw anifeiliaid pwysig nac anifeiliaid a warchodir, gan gynnwys adar, o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd effeithiau dros dro ar rai anifeiliaid neu adar unigol, neu niferoedd bach ohonynt, yn ystod y cam adeiladu o ganlyniad i'r gwaith clirio llystyfiant a'r tir a'r angen am groesfannau cyrsiau dŵr. Gallai'r aflonyddwch ddeillio o sŵn, nodweddion gweledol, rhwystrau a newidiadau i'r cynefin, a cholli cynefinoedd bwydo (lle byddant yn chwilio am fwyd). Ystyrir yr effeithiau hyn yn ddim mwy na rhai bach, ac nid ydynt yn sylweddol.
- 5.4.12 Byddai cynefinoedd sy'n cynnal anifeiliaid ac adar yn cael eu hadfer neu eu gwella pan fo hynny'n bosibl. Bydd planhigion sy'n tyfu'n lleol yn cael eu defnyddio, sy'n darparu amrywiaeth o ffynonellau bwyd i anifeiliaid ac adar lleol. Byddai'r mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**) ac yn y Strategaeth Lliniaru Bioamrywiaeth (**Dogfen 7.7**) yn lleihau aflonyddwch posibl a'r perygl o niwed uniongyrchol, felly ni fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar gynefinoedd na rhywogaethau.
- 5.4.13 Byddai effaith sylweddol ar Safle Bywyd Gwyllt Sirol Gylched Covert o ganlyniad i faint o goetir sydd yn yr ardal ddynodedig y byddai angen ei thynnu, er byddai coed newydd yn cael eu plannu hefyd. Byddai cynllun rheoli'n cael ei roi ar waith er mwyn rheoli a gwella cyflwr y cynefin newydd a'r cynefin sy'n weddill yn y Safle Bywyd Gwyllt Sirol hwn.
- 5.4.14 Mae'n bosibl yr effeithir ar y cynefin a'r anifeiliaid yn y Fenai, os bydd yr annhebygol yn digwydd, a bod y peiriant tyllu'n colli rheolaeth wrth ddrilio slyri yn ystod gwaith adeiladu'r twnnel. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn aml, ac o ystyried dyfnder aliniad y twnnel o dan wely'r môr, yn ogystal â'r mesurau yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu, ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol.
- 5.4.15 Mae effeithiau posibl sŵn a dirgryndod o ganlyniad i adeiladu'r twnnel o dan y Fenai gan ddefnyddio'r dull 'drilio a ffrwydro' wedi cael eu hasesu. Gyda mesurau lliniaru ar waith, ystyrir yr effeithiau ar famaliaid morol a physgod

mudol yn rhai bach iawn, ac nid yn rhai sylweddol. Gallai'r ffrwydro effeithio ar bysgod nad ydynt yn bysgod mudol, ond byddai'r effeithiau'n ddim mwy na rhai bach.

Y cam gweithredu

- 5.4.1 Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar dderbynyddion ecolegol yn ystod y cam gweithredu, ac eithrio'r effaith sylweddol o golli cynefin yn Safle Bywyd Gwylt Sirol Gylched Covert o ganlyniad i faint o goetir sydd yn y safle dynodedig a fydd yn cael ei golli'n barhaol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, byddai cynllun rheoli'n cael ei roi ar waith er mwyn rheoli a gwella cyflwr y cynefin newydd a'r cynefin sy'n weddill yn y Safle Bywyd Gwylt Sirol hwn.
- 5.4.2 Byddai rhai cynefinoedd bychan yn cael eu colli'n barhaol oherwydd sylfeini'r peilonau, y prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio a'r estyniad i is-orsaf Pentir. Mae plannu coed, gwrychoedd, prysgwydd a glaswelltir yn golygu y byddai bioamrywiaeth yn gwella rhywfaint ar lefel leol yn y lleoliadau hyn.
- 5.4.3 Ni fyddai rhai coetiroedd a choed a fyddai'n cael eu tynnu yn ystod y gwaith adeiladu'n cael eu hailblannu oherwydd bod angen cynnal uchder lefel isel o ran y llystyfiant o dan y llinell uwchben. Pan fo hynny'n bosibl, byddai'r rhain yn cael eu hailblannu'n agos at eu safleoedd blaenorol.
- 5.4.4 Mae asesiad o'r perygl o wrthdrawiad wedi'i gynnal, yn seiliedig ar arolygon gweithgarwch adar. Gan fod y Datblygiad Arfaethedig yn dilyn y llinell uwchben bresennol yn bennaf, byddai gwelededd cyffredinol y llinellau uwchben yn gwella ac mae adar wedi arfer â pheilonau a dargludyddion yn yr ardal. Felly, am y rhesymau hyn, ac ar sail gweithgarwch adar, ni fyddai'r perygl o wrthdaro yn sylweddol ar gyfer yr holl rywogaethau adar.
- 5.4.5 Gallai fod yn bosibl cynhyrchu maes electromagnetig pan fydd y ceblau o dan y ddaear yn weithredol. Ni ragwelir y bydd yr effeithiau'n sylweddol oherwydd nad oes llawer o famaliaid morol yn defnyddio'r Fenai, ac oherwydd y lefelau isel iawn o'r maes electromagnetig a ragwelir o ganlyniad i ddyfnder y twnnel o dan wely'r môr.

Cynnal a Chadw a Datgomiynu

- 5.4.6 Byddai effeithiau datgomiynu fwy neu lai yr un fath â'r effeithiau adeiladu, ond heb golli unrhyw dir arall yn barhaol. Gall effeithiau cynnal a chadw a datgomiynu ddod i'r amlwg os bydd angen ailagor mynedfeydd sydd wedi'u hadfer neu os bydd angen defnyddio rhagor o dir er mwyn adnewyddu neu symud seilwaith. Ni fyddai'r effeithiau hyn yn sylweddol

oherwydd yr ardaloedd bychan sydd dan sylw ac oherwydd natur dros dro'r effeithiau hyn, lle byddai tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adeiladu dros dro, ond yna'n cael ei adfer.

- 5.4.7 Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd morol yn ystod gwaith cynnal a chadw'r twnnel na'r cam datgomisiynu.

5.5 YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

- 5.5.1 Mae'r adran hon yn crynhoi effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol.

Crynodeb o'r Waelodlin

- 5.5.2 Mae gan Ynys Môn a gogledd Gwynedd gefndir hanesyddol cyfoethog a hanes hir o ddefnydd ac olion byw pobl. Mae yno nifer o safleoedd angladdol (sy'n ymwneud â choffa'r meirw) o'r cyfnod cynhanes a henebion defodol eraill, gan gynnwys beddrodau siambr a meini hirion. Mae Ffotograff 7 yn dangos cylch cerrig a siambr gladdu Bryn Celli Ddu, sy'n heneb restredig. Mae tystiolaeth o hen aneddiadau ac mae'r ffordd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio a'i reoli dros y blynyddoedd wedi sicrhau bod olion archaeolegol mewn cyflwr da yn aml.



Ffotograff 7: Cylch Cerrig a Siambr Gladdu Bryn Celli Ddu

- 5.5.3 Mae nifer o ystadau mwy wedi'u datblygu yn y cyfnod ar ôl y canol oesoedd, fel Plas Newydd a'r Faenol (Parciau a Gerddi Cofrestredig Gradd I gyferbyn â glannau'r Fenai) ac maent yn cynnwys tirweddau wedi'u dylunio sydd mewn cyflwr da.
- 5.5.4 Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn agos i nifer o asedau treftadaeth ddiwylliannol ac archaeolegol. Mae'r asedau hyn yn amrywio o fannau penodol iawn lle mae arteffactau sy'n dynodi gweithgareddau gan bobl wedi'u canfod i safleoedd aneddiadau sy'n cynrychioli anheddu parhaol. Mae'r nodweddion a nodir yn dyddio o'r cyfnod cynhanes ymlaen.
- 5.5.5 Mae asedau treftadaeth dynodedig (asedau sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth) a rhai heb eu dynodi wedi'u canfod yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig. Maent yn cynnwys adeiladau rhestredig; Henebion Rhestredig; Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig; Ardaloedd Cadwraeth a Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Mae yna bosibilrwydd y bydd olion nad ydynt wedi'u cofnodi o'r blaen yn cael eu canfod yn ardal y Datblygiad Arfaethedig hefyd.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.5.6 Ni fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar asedau sydd wedi'u dynodi neu heb eu dynodi o ganlyniad i aflonyddu uniongyrchol.
- 5.5.7 Mae rhaglen ar gyfer casglu data archaeolegol wedi nodi nifer o ardaloedd sydd o ddiddordeb archaeolegol o fewn Terfynau'r Gorchymyn. Pan fo hynny'n bosibl, mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i dylunio i osgoi colli neu amharu ar y rhain. Fodd bynnag, byddai'r gwaith adeiladu'n cynnwys colli rhai o'r olion archaeolegol hyn yn barhaol.
- 5.5.8 Pan fyddai'r gwaith adeiladu'n cynnwys amharu ar ardaloedd o ddiddordeb archaeolegol sy'n hysbys neu'n bosibl, yna byddai rhaglen wedi'i thargedu sef 'Stripio, Mapio a Samplo' yn cael ei chynnal gyda archaeolegydd ar y safle (a elwir yn 'friff gwyllo') yn goruchwylio'r gwaith mewn lleoliadau eraill. Byddai unrhyw ardaloedd archaeolegol y tu allan i'r ardaloedd adeiladu ond yn agos atynt, yn cael eu nodi'n glir ar y cynlluniau o'r safle, a byddai'r rhain yn cael eu hosgoi. Pe byddai risg o ddifrod damweiniol byddai ffens yn cael ei gosod o amgylch yr ardaloedd hyn yn ystod y cam adeiladu. Byddai trefniadau'n cael eu gwneud i adnabod a chofnodi olion cyn ac yn ystod y cam adeiladu. Hefyd, mae'n bosibl y bydd olion archaeolegol nad ydynt wedi'u canfod o'r blaen yn cael eu canfod yn ystod y cam adeiladu. Pan fo hyn yn addas, byddai'n bosibl eu hosgoi drwy newid llwybr neu gynllun (o fewn y terfynau

gwyro) y Datblygiad Arfaethedig neu byddent yn cael eu cofnodi cyn cael eu colli.

- 5.5.9 Byddai creu traciau mynediad yn ymwneud â thorri rhannau o nifer o ffiniau caeau o ddi-ddordeb hanesyddol, gan gynnwys cloddiau. Byddai'r rhain yn cael eu hadfer pan na fyddai angen y traciau mynediad mwyach, ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben.
- 5.5.10 Rhagwelir y bydd effeithiau anuniongyrchol negyddol sylweddol ar leoliad Fferm Llwyn-onn: Adeilad Rhestredig Gradd II a Heneb Restredig maen hir Coed Nant-y-garth (CN 375) yn ystod y gwaith adeiladu oherwydd y gwaith yn y prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio. Dros dro fyddai'r newidiadau hyn i'r lleoliad a dim ond pan fyddai'r gwaith adeiladu yn digwydd yn yr ardaloedd hyn.

Y cam gweithredu

- 5.5.11 Mae'r ardal o amgylch y Fenai o ddi-ddordeb hanesyddol, yn bennaf oherwydd parciau a gerddi cofrestredig Gradd I Plas Newydd a'r Faenol sydd ar lannau'r Fenai. Byddai defnyddio twnnel o dan y Fenai a'r tu hwnt yn osgoi effeithiau sylweddol ar y parciau hyn a'u lleoliad.
- 5.5.12 Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i ddylunio i redeg wrth ymyl y llinell uwchben bresennol cymaint â phosibl. Byddai hyn yn lleihau effeithiau ar leoliad asedau hanesyddol oherwydd byddai'r llinell uwchben wrth ymyl llinell bresennol, yn hytrach nag mewn man arall lle nad oes llinell ar hyn o bryd.
- 5.5.13 Fodd bynnag, rhagwelir y byddai effeithiau negyddol sylweddol ar leoliadau'r asedau dynodedig pan fyddai'r Datblygiad Arfaethedig mewn man newydd. Byddai presenoldeb Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio a'r llinell uwchben sy'n arwain i is-orsaf Pentir yn cael effaith negyddol sylweddol ar leoliad Heneb Restredig maen hir Coed Nant-y-garth.
- 5.5.14 Byddai effaith negyddol sylweddol ar leoliad y Maen Hir sydd 410m i'r gogledd o Eglwys sy'n Heneb Restredig (AN 080) i'r gogledd o Lanfechell a Rheithordy ac Adeiladau Rhestredig Gradd II amaethyddol, Llandyfydog oherwydd y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn agos at yr asedau hyn.
- 5.5.15 Byddai'r llinell uwchben ychwanegol a fyddai'n ychwanegu at y gwifrau (llinellau eraill trydanol uwchben ar beilonau a pholion pren yn ogystal â llinellau ffôn) yn cael effaith negyddol sylweddol ar y canlynol, ac yn edrych yn flêr: lleoliad Heneb Restredig Maen Addwyn (i'r de o anheddiad Maenaddwyn); Adeilad Rhestredig Gradd II Eglwys San Mihangel (ar ochr orllewinol y ffordd o Faenaddwyn i Gapel Coch) a Heneb Restredig Siambr Gladdu Bryn Celli Ddu (yn ne ddwyrain Ynys Môn, tua 1.5km o'r Fenai).

5.5.16 Byddai rhan o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig. Ond, ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol oherwydd llai o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, byddai'n anodd gweld y Datblygiad Arfaethedig ac oherwydd bod elfennau modern yno'n barod.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

5.5.17 Byddai'r rhain wedi'u cyfyngu i effeithiau ar leoliad asedau. Byddai unrhyw newid i leoliad hanesyddol ased yn ystod y cam cynnal a chadw dros dro yn unig, ac wedi'i gyfyngu i gyfnod byr o amser, na fyddai'n arwain at unrhyw effeithiau sylweddol.

5.5.18 Byddai'r effeithiau ar leoliad asedau yn ystod y gweithgareddau datgomisiynu yn debyg i'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu. Fodd bynnag, byddai'r cam datgomisiynu hefyd yn gwrthdroi unrhyw newidiadau i leoliad asedau o ganlyniad i bresenoldeb y Datblygiad Arfaethedig.

5.6 DAEAREG, HYDRODDAEAREG A CHYFLWR Y TIR

5.6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am yr effeithiau posibl ar nodweddion daeareg (pridd a chreigiau gwaelodol) neu hydroddaeareg (dŵr daear) sydd wedi'u nodi. Mae hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch a oes halogiad yn y tir ar hyn o bryd a allai effeithio ar y Datblygiad Arfaethedig neu ar weithwyr adeiladu a phobl eraill ger y gwaith.

Crynodeb o'r Waelodlin

5.6.2 Priddoedd brown nodweddiadol sy'n draenio'n rhwydd a phriddoedd hydraid araf (sy'n caniatáu i hylifau neu nwyon fynd drwyddynt) yw'r priddoedd sydd ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn bennaf. Ceir darnau ar wahân o fawn di-ffurf (heb strwythur clir ac yn lled-ffeibrog) yng Nghapel Coch a Thalwrn.

5.6.3 Byddai amrywiaeth o ddyddodion bas yn cynnwys clai yn bennaf o dan y Datblygiad Arfaethedig. Mae ardaloedd o dywod, graean a llaid wrth ymyl nentydd ac afonydd a'r arfordir. Byddai daeareg y creigwely o dan y Datblygiad Arfaethedig yn amrywiol ac yn cynnwys tywodfaen a chalchfaen o wahanol oedran.

5.6.4 Nid oes Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Daearegol na Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol o fewn 1 km i Derfynau Gorchymyn y Datblygiad Arfaethedig. Mae Ynys Môn wedi'i dynodi'n Geoparc (GeoMôn) sy'n ardal ddynodedig sy'n cynnwys un neu ragor o

safleoedd sy'n bwysig yn ddaearegol. Nid oes yr un o'r safleoedd hyn sy'n bwysig yn ddaearegol o fewn Terfynau'r Gorchymyn.

- 5.6.5 Mae saith safle dynodedig sy'n dibynnu ar ddŵr ffres a llwybr symudiad dŵr o'r Datblygiad Arfaethedig wedi'u nodi. Gallai fod yn bosibl i lygryddion o dir sydd wedi'i halogi'n barod gyrraedd y safleoedd dynodedig hyn o ganlyniad i gysylltiad â naill ai dŵr ar yr wyneb neu o dan y ddaear.
- 5.6.6 Byddai amrywiaeth o Brif ddyrhaenau, dyfrhaenau eilaidd A a B a dyfrhaenau diwahaniaeth (lle nad oedd yn bosibl priodoli categori A na B i fath o graig) o dan y Datblygiad Arfaethedig. Haen o greigiau hydraiddd sy'n dal dŵr, creigiau wedi'u hollti neu ddeunyddiau heb eu cyfuno yw dyrhaenau.
- 5.6.7 Mae cyflenwadau dŵr preifat ar gael o fewn 1 km i'r Datblygiad Arfaethedig. Nid oes unrhyw ddŵr daear yn cael ei dynnu o fewn 1 km i'r Datblygiad Arfaethedig.
- 5.6.8 Er mai ychydig iawn o ddangosyddion o dir halogedig posibl sydd yna, mae nifer o ganiatadau gollwng, cofnodion atal a rheoli llygredd integredig, cofnodion o lygredd a sylweddau ymbelydrol wedi'u cofrestru o fewn 1 km i Derfynau'r Gorchymyn.
- 5.6.9 Mae llawer o waith chwarela ar raddfa fach wedi bod yn yr ardal o fewn 1km i'r Datblygiad Arfaethedig yn y gorffennol. Hefyd mae llawer o dir wedi cael ei ddefnyddio mewn modd a allai olygu ei fod yn halogedig mewn mannau, gan gynnwys chwareli neu os oes cloddfeydd yno.
- 5.6.10 Mae defnydd tir a allai fod yn halogedig ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu'n gyffredinol i feysydd amaethyddiaeth, gwaith trin carthion, gorsafoedd petrol, is-orsafoedd trydan a gwaith datgomisiynu parhaus Gorsaf Bŵer Niwclear bresennol Wylfa.
- 5.6.11 Yn ôl cofnodion yr Awdurdod Glo, mae rhan o Derfynau'r Gorchymyn o fewn Ardal Adrodd Cloddio am Lo, Ardal Adnoddau Glo Wyneb ac Ardal Ddatblygu Risg Uchel sydd i'r dwyrain o Langefni.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.6.12 Yn ystod y cam adeiladu, byddai'r effeithiau posibl yn gysylltiedig â gollyngiadau o danwydd a chemegolion ar gyfer cyfarpar adeiladu. Mae'n bosibl y bydd symud priddoedd a pheiriannau adeiladu ar ben y pridd yn dirywio ansawdd y pridd a gall y lefelau o dan y ddaear newid o ganlyniad i symud dŵr o'r man adeiladu. Fodd bynnag, mae dilyn arferion gwaith da yn

ystod y gwaith adeiladu'n golygu nad yw unrhyw effeithiau'n debygol o ddigwydd, a phetaent, nid ydynt yn debygol o wasgaru'n eang, felly nid yw'r effeithiau'n sylweddol.

- 5.6.13 Mae rhai manau o dir sydd o bosibl yn halogedig yn deillio o ddefnyddiau tir blaenorol. Gallai amharu ar yr ardaloedd hyn yn ystod y gwaith adeiladu arwain at effeithio ar briddoedd, dŵr daear a gweithwyr adeiladu. Byddai gwaith cloddio bas o bosibl yn effeithio rhywfaint ar weithwyr adeiladu a sefydlogrwydd peilonau. Byddai'r mesurau lliniaru safonol yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**) yn rheoli'r effeithiau hyn. Ni ystyrir bod yr effeithiau gweddilliol yn sylweddol.
- 5.6.14 Bydd ymchwiliadau tir pellach yn lleihau'r perygl o ddatgelu priddoedd halogedig blaenorol yn annisgwyl. Byddai unrhyw dir halogedig a fyddai'n cael ei nodi'n cael ei lanhau cyn neu yn ystod y gwaith adeiladu, gan ddefnyddio technegau adfer sydd wedi'u profi.

Y cam gweithredu

- 5.6.15 Yr unig effaith sydd wedi'i nodi ar gyfer y cam gweithredu yw'r posibilrwydd i sylfeini'r prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio, peilonau, nenbontydd neu gyfarpar yn yr is-orsafoedd ddarparu llwybr i halogyddion deithio tuag at briddoedd, daeareg a dŵr daear heb eu halogi. Ond, ni ragwelir y bydd yr effeithiau hyn yn sylweddol.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

- 5.6.16 Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol wedi'u rhagweld o ganlyniad i waith cynnal a chadw cyffredinol. Ond, byddai gofyn cael offer a pheiriannau trymach ar gyfer y gwaith adnewyddu, a fyddai'n arwain at berygl isel o ollyngiadau.
- 5.6.17 Byddai effeithiau datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig yn adlewyrchu'r rheini ar gyfer y gwaith adeiladu yn gyffredinol oherwydd byddai angen manau gweithio a mynedfeydd tebyg. Pe byddai cerrig neu bridd wedi'u halogi'n cael eu defnyddio ar gyfer y ffyrdd mynediad neu i ôl-lenwi'r twnnel, gallai hyn beri risg i iechyd pobl, i ddaeareg ac i ddŵr daear. Byddai arferion da ar y safle a Chynllun Rheoli Gwastraff (**Dogfen 7.11**) yn fodd o liniaru'r effeithiau hyn.

5.7 ANSAWDD DŴR, ADNODDAU A'R PERYGL O LIFOGYDD

- 5.7.1 Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth amgylcheddol am yr effeithiau posibl ar ansawdd dŵr, adnoddau a'r perygl o lifogydd sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig.

Crynodeb o'r Waelodlin

5.7.2 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn dod o dan y dalgylchoedd canlynol:

- Afon Wygyr;
- Cronfa Ddŵr Llyn Alaw;
- Afon Goch;
- Cronfa Ddŵr Cefni;
- Afon Goch Dulas;
- Afon Lligwy;
- Afon Cefni;
- Afon Ceint;
- Afon Braint uchaf;
- Afon Braint y de;
- Dalgylch Afon Braint;
- Afon Nant-y-garth;

5.7.3 Mae nifer o is-gyrsiau dŵr bychan a ffosydd draenio yn y dalgylchoedd hyn. Mae statws ansawdd dŵr cymedrol neu dda wedi'u priodoli'n gyffredinol i'r dalgylchoedd hyn ar hyn o bryd.

5.7.4 Byddai rhannau o'r Datblygiad Arfaethedig yn dod o fewn Cors Erddreiniog, sy'n rhan o gynefin gwlyptir Ardal Cadwraeth Arbennig, RAMSAR a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Corsydd Môn o amgylch Capel Coch, i'r gorllewin o Fynydd Bodafon, Caeau Talwrn (Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) a Chorsydd Môn, sy'n rhan o safle Corsydd Môn a Safle Bywyd Gwyllt Cors Tregarnedd Fawr.

5.7.5 Mae'r safleoedd dynodedig canlynol: Ardal Warchoddedig Dŵr Yfed a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llyn Alaw; Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy; a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Ddyga i gyd yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig oherwydd llwybr dŵr wyneb, er enghraifft nant neu ffos.

- 5.7.6 Mae tri man tynnu dŵr wyneb mawr yn yr ardal - ac mae dau ohonynt yn gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus. Mae tri man tynnu dŵr wyneb preifat hefyd. Mae dau ollyngiad ymhellach i lawr yn y Datblygiad Arfaethedig.
- 5.7.7 Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei leoli'n bennaf ar y tir ac i ffwrdd oddi wrth ardaloedd o lifogydd arfordirol/llanwol heb eu hamddiffyn. Mae croesfannau cyrsiau dŵr yn dueddol o fod ar ongl sgwâr i gyfeiriad y prif lif, felly mae'r Datblygiad Arfaethedig yn croesi sawl parth llifogydd am ychydig.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.7.8 Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn croesi nifer o gyrsiau dŵr a ffosydd draenio. Byddai nifer o'r croesfannau hyn yn ymwneud â'r groesfan llinell uwchben yn unig dros yr afon neu ffos heb unrhyw waith ffisegol ar y cwrs dŵr ei hun. Ychydig iawn o effaith fyddai hyn yn ei chael, neu ddim o gwbl, felly ni fyddai'n sylweddol. Fodd bynnag, byddai rhywfaint o seilwaith yn ymadweithio'n uniongyrchol â chyrsgiau dŵr, er enghraifft pan fyddai angen traciau mynediad ar gyfer gwaith adeiladu dros dro ar draws cyrsiau dŵr ar ffurf cwlfer neu bont.
- 5.7.9 Byddai'r canlynol yn sicrhau na fyddai'r effeithiau hyn yn sylweddol: mesurau i leihau nifer y croesfannau dros dro ar gyfer cyrsiau dŵr; dylunio ac adeiladu'r croesfannau cyrsiau dŵr i gyd-fynd â'r math o gwrs dŵr sy'n cael ei groesi; a mesurau lliniaru adeiladu safonol, gan gynnwys storio tanwydd a chemegolion yn gywir, archwilio peiriannau cyn eu defnyddio i gadw llygad am ollyngiadau, ac atal gwastraff rhag mynd i gyrsgiau dŵr.
- 5.7.10 Gallai effeithiau posibl ar amgylchedd dŵr wyneb gynnwys:
- newidiadau yn ansawdd y dŵr o ganlyniad i waith adeiladu;
 - gollyngiadau tanwydd neu gemegol;
 - newidiadau yng nghyfaint y dŵr sy'n llifo ar hyd cyrsiau dŵr o waith sychu neu ddraenio safleoedd;
 - gwaith mewn cyrsiau dŵr neu gerllaw, sy'n newid cyfaint y dŵr a sut mae'n llifo ar hyd y cwrs dŵr;
 - cynnydd mewn cyfraddau a chyfeintiau dŵr sy'n llifo (cyflymder a chyfaint y dŵr glaw sy'n llifo fel dŵr wyneb) o ganlyniad i newidiadau i fath o orchudd tir.
 - newidiadau yng ngallu'r gorlifdir i ddelio â llifddwr; ac

- yr effeithiau anuniongyrchol y gallai'r rhain eu cael ar ecoleg, pobl, eiddo a seilwaith.

5.7.11 Byddai modd rheoli'r effeithiau hyn gyda mesurau lliniaru safonol a drwy roi Cynllun Rheoli Draenio ar waith. Felly, ni ystyrir bod yr effeithiau gweddilliol yn sylweddol.

Y cam gweithredu

5.7.12 Byddai rhoi llystyfiant yn ôl a rhoi pridd yn ôl ar ôl y gwaith adeiladu yn osgoi'r newidiadau hirdymor yn ansawdd neu siâp y dŵr o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig pan fyddai ar waith. Mae yna bosibilrwydd y bydd effeithiau sy'n gysylltiedig â draenio o'r prif dŷ twnnel a safleoedd compownd lle caiff pennau ceblau eu selio a thynnu dŵr sydd wedi hidlo i'r twnnel. Ond byddai'r Cynllun Rheoli Draeniau yn lleihau unrhyw newidiadau tymor hir yn ansawdd y dŵr, ac ni fyddai'r effeithiau'n sylweddol. Mae'r prif dŷ twnnel a'r compownd lle caiff pennau ceblau eu selio wedi'u lleoli yn yr ardaloedd lle mae'r perygl isaf posibl o lifogydd a byddai codi cyfarpar sy'n sensitif i lifogydd yn yr estyniad i is-orsaf Pentir yn lleihau'r perygl o lifogydd.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

5.7.13 Yn ystod y gwaith cynnal a chadw, gallai gwaith adnewyddu gael effeithiau tebyg i'r gwaith adeiladu cyntaf. Ond, byddai hyn ar raddfa lai ac yn para llai. Felly, ni fyddai hyn yn debygol o gael cymaint o effaith â'r gwaith adeiladu.

5.7.14 Byddai'r effeithiau yn ystod y cam datgomisiynu fwy neu lai yr un fath â'r effeithiau a fyddai'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu. Byddai hyn yn cael ei reoli i lefel dderbyniol drwy gyfrwng arferion da, fel oedd yn cael ei wneud yn ystod y cam adeiladu.

5.8 TRAFFIG A THRAFNIDIAETH

5.8.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r effeithiau amgylcheddol posibl sy'n deillio o'r traffig sy'n cael ei achosi gan y Datblygiad Arfaethedig.

Crynodeb o'r Waelodlin

5.8.2 Mae'r rhwydwaith traffig a thrafnidiaeth lleol y gall y Datblygiad Arfaethedig effeithio arno'n cynnwys prif ffordd (Ffyrdd A), is-ffyrdd (Ffyrdd B a Ffyrdd C) a ffordd dienw (diddosbarth) sy'n rhan o'r rhwydwaith ffyrdd sy'n lleol i'r Datblygiad Arfaethedig. Caiff yr A55 ei dangos yn Ffotograff 8.

5.8.3 Byddai'r Datblygiad Arfaethedig hefyd yn croesi nifer o hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau beicio, neu byddent yn agos i lwybrau traffig adeiladu.



Ffotograff 8: A55

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.8.4 Byddai'r prif effeithiau traffig a chlodiant sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn deillio o gynnydd yn y llif traffig ar ffyrdd cyfagos a ddefnyddir gan gerbydau adeiladu. Byddai'r cynnydd yn y llif traffig yn gysylltiedig â gosod pwyntiau a ffyrdd mynediad, sylfeini peilonau, cydosod a chodi peilonau, gosod ceblau, adfer mynediad, tynnu ffyrdd mynediad, a symudiadau cerbydau'r gweithwyr adeiladu. Yn ystod y cam adeiladu, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar ddefnyddwyr ffyrdd 'A' a 'B', a ffyrdd dienw. Mae defnyddwyr yn cynnwys gyrwyr eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd, beicwyr a cherddwyr. Byddai'r effeithiau'n cynnwys oedi, anawsterau'n cyrraedd amwynderau lleol neu ffyrdd, neu gynnydd go iawn neu dybiedig mewn perygl o ddamweiniau.
- 5.8.5 Mae llwybrau mynediad, is-ffyrdd ac aneddiadau wedi'u hosgoi pan fo hynny'n bosibl. Byddai nifer y teithiau gan gerbydau adeiladu yn amrywio ar hyd y ffyrdd hyn drwy gydol y cam adeiladu. Byddai'r nifer yn uwch yn nes at leoliadau/ compowndiau adeiladu a'r prif dŷ twnnel a'r compownd lle caiff pennau ceblau eu selio ac yn is yn nes at beilonau sy'n fwy anghysbell. Disgwylir y bydd y twnnel a gweithgareddau siafftau'r twnnel yn arwain at

nifer fawr o symudiadau gan Gerbydau Nwyddau Trwm bob dydd, oherwydd bod llawer iawn o ddeunydd yn cael ei dynnu.

- 5.8.6 Daethpwyd i gasgliad y bydd cynnydd bach iawn (heb fod yn sylweddol) yn y gyfradd damweiniau ar hyd y llwybrau adeiladu arfaethedig. Ar ôl asesu, nodwyd na fydd effeithiau sylweddol ar unrhyw ffordd, heblaw am Ffordd Gyswllt Pont Rhonwy. O ran y ffordd honno, daethpwyd i gasgliad y bydd effeithiau sylweddol ar oedi i yrwyr ac i gerddwyr, anawsterau'n cyrraedd amwynderau lleol, ac ar gyfforddusrwydd cerddwyr.
- 5.8.7 Mae Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (**Dogfen 7.5**) wedi cael ei baratoi. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu'r mesurau sydd wedi cael eu cynnwys yn nyluniad y Datblygiad Arfaethedig ac a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i leihau effeithiau traffig yn ystod cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Byddai'r cynllun terfynol yn cael ei ddatblygu gan y contractwr.
- 5.8.8 Ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus na llwybrau beicio. Byddai Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus (**Dogfen 7.6**) yn cael ei roi ar waith yn ystod y cam adeiladu er mwyn cadw defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus yn ddiogel ac er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar lwybrau.

Y cam gweithredu

- 5.8.9 Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, ni fydd cam gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at symudiadau traffig, fodd bynnag bydd angen gwneud arolygiadau, a gwaith trin a chynnal a chadw rheolaidd.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

- 5.8.10 Byddai'r traffig sy'n gysylltiedig â'r arolygiadau a'r gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn isel iawn. Mae'n debygol y byddai gwaith adnewyddu nad yw'n rheolaidd yn digwydd ar raddfa fwy, fodd bynnag byddai'r traffig yn is o lawer fel arfer, yn fwy lleol ac yn para am gyfnod byrrach na'r traffig a ragwelir ar gyfer y cam adeiladu. Yn ogystal, ni fyddai'r traffig sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r twnnel byth yn dychwelyd. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn llai arwyddocaol na'r rheini yn y cam adeiladu, felly nid ydynt wedi cael eu hasesu.
- 5.8.11 Disgwylir y bydd yr effeithiau datgomisiynu'n debyg i'r rhai yn ystod y cam adeiladu, ond yn llai o ran y twnnel, oherwydd na fyddai deunydd i'w symud a dim ond ychydig o ddeunydd fyddai angen amdano i gapio neu ôl-lenwi siafftau'r twnnel, felly nid yw'n debygol y byddai'r effeithiau'n sylweddol.

5.9 ANSAWDD AER AC ALLYRIADAU

5.9.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am yr effeithiau posibl ar ansawdd yr aer a'r allyriadau a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig.

Crynodeb o'r Waelodlin

5.9.2 Drwy gydol ardal yr astudiaeth, mae'r ansawdd aer presennol yn uchel ei safon ar y cyfan. Mae lefel gefndir o lwch yn bodoli eisoes, fel sy'n arferol mewn lleoliadau yn y DU, fodd bynnag mae'r lefelau yn is o lawer na'r lefelau sy'n debygol o achosi cwynion gan aelodau o'r cyhoedd.

5.9.3 Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan naill ai yn ardal weinyddol Ynys Môn nac yn ardal weinyddol Gwynedd ac nid yw'n hysbys bod unrhyw achosion o fynd heibio amcanion ansawdd aer lle mae datguddiad sensitif i iechyd pobl. Cafodd lefelau uwch o nitrogen deuocsid eu mesur mewn lleoliadau wrth ymyl yr A55 a'r A5025, lle nad oes datguddiad perthnasol.

5.9.4 Mae asesiad gwaelodlin wedi nodi bod achosion o fynd heibio gwerthoedd yr amcanion ansawdd aer perthnasol mewn rhai safleoedd ecolegol sensitif yn ardal yr astudiaeth.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

5.9.5 Mae'n bosibl y bydd gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r llinell uwchben, y twnnel, y prif dŷ twnnel a'r compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio ac is-orsafoedd yn cynhyrchu llwch ac allyriadau o waith cloddio, adeiladu sylfeini, twnelu, adeiladu strwythurau a symudiadau cerbydau adeiladu.

5.9.6 Mae'r asesiad o lwch a gronynnau wedi rhoi lefel y lliniaru sy'n ofynnol er mwyn rheoli allyriadau i sicrhau na fyddai effaith sylweddol. Mae'r mesurau lliniaru llwch wedi'u nodi yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**) ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig a byddai cynllun rheoli llwch yn cael ei roi ar waith. Ni fyddai'r effeithiau ar yr holl dderbynyddion o ragor o lwch a gronynnau yn yr aer yn sylweddol.

5.9.7 Nododd asesiad o allyriadau generaduron argyfwng a thraffig ffordd nad oes unrhyw achosion o fynd heibio gwerthoedd yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol mewn unrhyw dderbynyddion dynol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd effeithiau ar rai safleoedd ecolegol wrth ymyl y llwybrau traffig adeiladu, ond na fyddai'r effeithiau ar bob derbynydd yn rhai sylweddol.

Y cam gweithredu

- 5.9.8 Yn ystod y cam gweithredu, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio rhywfaint ar ansawdd yr aer yn lleol, ond ni fyddai'n sylweddol.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

- 5.9.9 Nid yw mân waith cynnal a chadw yn debygol o gynhyrchu allyriadau i'r aer a fyddai'n arwain at effaith sylweddol. Gallai gwaith adnewyddu mawr gynhyrchu effeithiau tebyg i'r cam adeiladu. Byddai'r cam datgomisiynu'n cael effaith lai na'r cam adeiladu, ond byddai'r un dull lliniaru'n cael ei ddefnyddio. O ganlyniad, ni fyddai'r effeithiau'n sylweddol.

5.10 SŴN A DIRGRYNDOD ADEILADU

- 5.10.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am effeithiau sŵn a dirgryndod adeiladu a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig.

Crynodeb o'r Waelodlin

- 5.10.2 Ynys wledig yw Ynys Môn sy'n cynnwys tir amaethyddol yn bennaf, gyda rhai ardaloedd yn cael eu rheoli at ddibenion cadwraeth natur. Mae ardal y Datblygiad Arfaethedig yng Ngwynedd yn wledig ar y cyfan hefyd. O ganlyniad, lefelau isel o sŵn sydd ar y rhan fwyaf o'r ardal yn ystod y dydd, a lefelau isel iawn yn ystod y nos. Er bod rhai priffyrdd prysur, gan gynnwys yr A5, yr A55, yr A487 a'r B4547, mae lefel sŵn y traffig yn debygol o ostwng wrth iddi nosi ac yn ystod y nos.

- 5.10.3 Eiddo preswyl a rhywogaethau anifeiliaid mewn safleoedd cadwraeth natur o fewn 250m i'r Datblygiad Arfaethedig sy'n fwyaf tebygol o fod yn sensitif i sŵn adeiladu.

Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

Y cam adeiladu

- 5.10.4 Byddai effeithiau sŵn posibl yn deillio o waith adeiladu yn yr is-orsafoedd a'r prif dŷ twnnel, y compowndiau lle caiff pennau ceblau eu selio a safleoedd y peilonau, wrth osod traciau mynediad, ac yn y compowndiau adeiladu yn ystod gwaith drilio'r twnnel ac o ganlyniad i draffig adeiladu ar draciau mynediad a ffyrdd cyhoeddus.
- 5.10.5 Mae'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**) a'r Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryndod (**Dogfen 7.9**) yn nodi mesurau i leihau effeithiau sŵn a dirgryndod, er enghraifft defnyddio cyfarpar tawelach a rhwystrau sŵn yn yr ardaloedd adeiladu tymor hir.

- 5.10.6 Byddai'r rhan fwyaf o'r derbynyddion yn agored i effeithiau sŵn a dirgryndod na fyddai'n sylweddol. Ond, byddai 25 o dderbynyddion yn profi effeithiau sylweddol posibl. O'r rhain, byddai 24 yn profi effeithiau sŵn adeiladu dros gyfnod byr yn unig, gan eu bod yn gysylltiedig ag adeiladu peilonau neu waith dymchwel; o ran y rhain, ni ystyrir yr effaith gyffredinol yn un sylweddol. Mae hyn yn gadael dim ond un derbynydd lle byddai effaith sylweddol o ganlyniad i sŵn adeiladu. Er bod yr effaith hon yn ymwneud ag adeiladu peilonau hefyd, ac felly'n para am gyfnod byr, byddai'r lefelau sŵn yn ddigon uchel i ystyried yr effaith yn un sylweddol.
- 5.10.7 Byddai rhagor o draffig ar ffyrdd lleol o ganlyniad i draffig adeiladu yn arwain at fwy o sŵn a dirgryndod. Mae dewis llwybrau trafndiaeth priodol wedi ceisio lleihau'r effeithiau hyn ac o ganlyniad nid oes unrhyw dderbynyddion a fyddai'n profi effaith sylweddol gan draffig ar ffyrdd cyhoeddus; fodd bynnag, byddai traffig adeiladu ar draciau mynediad yn achosi effeithiau sŵn sylweddol mewn un lleoliad. Byddai'r lleoliad hwn yn agos at fynedfa i safle Tŷ Fodol, felly gallai'r effeithiau bara am y rhan fwyaf o'r cam adeiladu, yn arbennig os bydd Tŷ Fodol yn cael ei ddefnyddio fel safle cychwyn ar gyfer y gwaith twnelu.

Cynnal a Chadw a Datgomisiynu

- 5.10.8 Ni fyddai gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol; fodd bynnag byddai gwaith adnewyddu a datgomisiynu o bosibl yn arwain at effeithiau sŵn a dirgryndod tebyg i'r rheini yn ystod y cam adeiladu. Yn y ddau achos, mae'r effeithiau hyn yn debygol o bara am gyfnod byrrach, ac ni fyddai effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r twnnel yn dychwelyd.

5.11 SŴN GWEITHREDU

- 5.11.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am effeithiau posibl sŵn a dirgryndod gweithredu a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig.

Crynodeb o'r Waelodlin

- 5.11.2 Ynys wledig yw Ynys Môn sy'n cynnwys tir amaethyddol yn bennaf, gyda rhai ardaloedd o dir wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur. Mae ardal y Datblygiad Arfaethedig yng Ngwynedd yn wledig ar y cyfan hefyd. O ganlyniad, lefelau isel o sŵn sydd ar y rhan fwyaf o'r ynys yn ystod y dydd, a lefelau isel iawn yn ystod y nos. Er bod rhai priffyrdd prysur, gan gynnwys yr A5, yr A55, yr A487 a'r B4547, mae lefel sŵn y traffig yn debygol o ostwng wrth iddi nosi ac yn ystod y nos.
- 5.11.3 Eiddo preswyl yw'r rhan fwyaf o'r derbynyddion sydd wedi'u nodi ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig.

